

# Trydydd cam rheoleiddio diogelwch ar-lein

---

Dyletswyddau ychwanegol ar gyfer  
gwasanaethau wedi'u categorio

## Cais am dystiolaeth

Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2024

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 20 Mai 2024

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
2. Cefndir .....	7
3. Dyletswyddau ychwanegol o ran telerau gwasanaeth .....	14
4. Cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol, a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd.....	24
5. Dyletswyddau grymuso defnyddwr.....	31
6. Dyletswyddau dilysu manylion adnabod defnyddiwr .....	36
7. Hysbysebu twyllodrus .....	40
8. Mynediad at wybodaeth am ddefnydd o wasanaeth gan blentyn sydd wedi marw.....	46

## Atodiad

A1. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth .....	49
A2. Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth .....	52

# 1. Trosolwg

- 1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ac mae'n goruchwyllo sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu a radio a ddarllidir, a gwasanaethau ar-lein. Cawsom ein penodi yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf) ym mis Hydref 2023.
- 1.2 Mae'r Ddeddf yn gwneud cwmnïau sy'n gweithredu ystod eang o wasanaethau ar-lein, yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw pobl, yn enwedig plant, yn fwy diogel ar-lein. Mae'n cyflwyno system ar gyfer categorieiddio rhai gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu rheoleiddio ar sail nodweddion allweddol, gan gynnwys rhifau defnyddwyr a swyddogaethau. Bydd rhai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn bodloni trothwyon penodol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth.<sup>1</sup> Ar ôl pasio'r is-ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i Ofcom ddatblygu a chynhyrchu cofrestr gyhoeddedig o wasanaethau wedi'u categorieiddio (a rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg).<sup>2</sup> Os yw'r is-ddeddfwriaeth yn gyson â'n cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol, a gyhoeddwyd heddiw hefyd, yn seiliedig ar ddadansoddiad rhagarweiniol, rydym yn disgwyl categorieiddio rhwng 35-60 o wasanaethau ar draws y tri chategori – er y gallai'r niferoedd newid yn dilyn y broses ddynodi. Ni fydd yr holl wasanaethau eraill – h.y. y rhan fwyaf o'r gwasanaethau sydd o fewn cwrpas y Ddeddf – yn cael eu categorieiddio ac ni fyddant yn ddarostyngedig i unrhyw un o'r dyletswyddau ychwanegol a ddisgrifir isod.
- 1.3 Bydd yn ofynnol i ddarparwyr y gwasanaethau hyn sy'n cael eu categorieiddio gydymffurfio â rhai dyletswyddau ychwanegol – yn dibynnu ar y categori y maent yn perthyn iddo. Mae Ffigur 1.1. isod yn crynhoi'r dyletswyddau sy'n berthnasol i'r gwahanol gategoriâu.

**Ffigur 1.1: Dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i wasanaethau wedi'u categorieiddio**

Categoriâu →	Categori 1	Categori 2A	Categori 2B
<b>Rhaid i wasanaethau wedi'u categorieiddio gydymffurfio â dyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud â'r isod:</b>			
<b>Adrodd am dryloywder</b>	✓	✓	✓
<b>Gofynion uwch o ran asesiadau risg a chadw cofnodion</b>	✓	✓	
<b>Dyletswyddau ychwanegol o ran telerau gwasanaeth</b>	✓		
<b>Gwarchodaeth ar gyfer cynnwys cyhoeddwy newyddion, cynnwys newyddiadurol, a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd</b>	✓		
<b>Darparu nodweddion grymuso defnyddwyr</b>	✓		

<sup>1</sup> Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch lle dylid gosod y trothwyon, ar sail yr ymchwil rydym wedi'i chynnal.

<sup>2</sup> Ar sail yr amcangyfrifon presennol, rydym yn disgwyl cynhyrchu cofrestr gyhoeddedig o wasanaethau wedi'u categorieiddio (a rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg) erbyn diwedd 2024. Fodd bynnag, gall yr amseru newid gan y gallai Etholiad Cyffredinol effeithio ar basio is-ddeddfwriaeth.

Cynnig dewisiadau dilysu manylion adnabod defnyddiwr	✓		
Atal hysbysebu twyllodrus	✓	✓	
Datgelu gwybodaeth am ddefnydd o'r gwasanaeth gan blentyn sydd wedi marw	✓	✓	✓

- 1.4 Mae'r dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorioedd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo nodau strategol y drefn reoleiddio diogelwch ar-lein. Eu bwriad yw arwain at fwy o ddewis a thryloywder i ddefnyddwyr gan gynnwys plant, gan roi mwy o reolaeth ystyrion iddynt dros eu profiadau ar-lein. Mae darpariaethau penodol i fynd i'r afael â thwyll ar-lein a grymuso defnyddwyr i amddiffyn eu hunain rhag twyll o'r fath. Bydd amddiffyniadau craidd yn cael eu rhoi i gynnwys cyhoeddwyr newyddion, cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd sy'n hanfodol i drafodaeth ddemocrataidd.
- 1.5 Mae Ofcom yn mynd ati fesul cam [i weithredu'r Ddeddf](#). Mae'r cam cyntaf yn ymwneud â niwed anghyfreithlon ac fe wnaethom [ymgyngori'n ddiweddar](#) ar y codau ymarfer a'r canllawiau ar gyfer y dyletswyddau hyn. Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu cyhoeddi ein codau a'n canllawiau terfynol cyn diwedd 2024. Mae cam dau yn ymwneud ag amddiffyn plant ac rydym yn bwriadu ymgynghori ar y codau ymarfer a'r canllawiau hyn yng Ngwanwyn 2024. **Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn parhau â gwaith Ofcom i weithredu'r drefn diogelwch ar-lein, ac mae'n canolbwyntio ar y dyletswyddau ychwanegol y bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categorioedd gydymffurfio â nhw, sy'n rhan o gam tri y gweithredu.**
- 1.6 Fel rhan o gam tri, byddwn yn dilyn proses tri cham. Yn gyntaf, bydd darparwyr gwasanaethau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau ychwanegol yn cael eu nodi, sy'n broses rydyn ni'n ei disgrifio'n fanylach isod yn adran 2. Yn ail, byddwn yn ymgynghori ar godau a chanllawiau drafft a fydd yn nodi sut y gall gwasanaethau gydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol hyn. Byddwn yn gwneud hyn mewn dwy ran, gan ymgynghori gyntaf yn ystod Haf 2024 ar ein canllawiau sy'n ymwneud â'n trefn adrodd ar dryloywder i flaenoriaethu ei gweithrediad cyflym yn 2025. Dilynir hyn gan ymgynghoriad pellach ddechrau 2025 ar ddyletswyddau ychwanegol pellach ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorioedd. Mae'r ddogfen hon yn galw am dystiolaeth i gefnogi'r ymgynghoriad ar ddechrau 2025. Yn drydydd, yn dilyn yr ymgynghoriadau hyn, byddwn yn cyhoeddi codau a chanllawiau terfynol.<sup>3</sup>

### Crynodeb o'r dyletswyddau yn y Ddeddf a'r dystiolaeth rydym yn ei cheisio

Dan y Ddeddf, rhaid i Ofcom gynhyrchu amrywiaeth o godau ymarfer a chanllawiau sy'n amlinellu'r camau y gall cwmnïau eu cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau newydd.

**Rydym yn gofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid i lywio'r codau ymarfer a'r canllawiau y mae'n rhaid i Ofcom eu cynhyrchu i weithredu trydydd cam rheoleiddio diogelwch ar-lein.**

<sup>3</sup>Efallai y bydd yr amseru'n newid gan fod gweithredu rhai rhannau o'r drefn yn dibynnu ar basio is-ddeddfwriaeth, a allai gael ei effeithio gan Etholiad Cyffredinol a fydd yn cael ei alw rywbryd cyn mis Ionawr 2025. Nid ydym wedi cynnwys Etholiad Cyffredinol yn ein gwaith cynllunio hyd yma.

**Dyletswyddau ychwanegol o ran telerau gwasanaeth:** dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur i sicrhau mai dim ond yn unol â'r telerau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu hyn y tynnir i lawr neu y cyfyngir ar fynediad at gynnwys, a gwahardd neu atal defnyddwyr. Rhaid i ddarparwyr hefyd sicrhau bod y telerau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r camau hyn yn cael eu gorfodi'n gyson. Rydyn ni eisiau gwybod y canlynol:

- sut y mae darparwyr gwasanaethau ar-lein yn sicrhau bod eu telerau gwasanaeth yn galluogi defnyddwyr i ddeall pryd a sut y bydd gwahanol fathau o gamau gorfodi yn cael eu cymryd yn erbyn cynnwys neu gyfrifon; maent yn mesur a yw defnyddwyr yn darllen, yn deall, ac yn dilyn eu rheolau; ac maent yn osgoi gor-orfodi neu tan-orfodi eu telerau gwasanaeth wrth weithredu systemau cymedroli.

**Gwarchodaeth ar gyfer cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd:** dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i ddefnyddio prosesau sydd wedi'u hanelu at ddiogelu'r mathau hyn o gynnwys. Rydyn ni eisiau gwybod am y canlynol:

- nodi, dosbarthu a chymedroli'r cynnwys uchod ar wasanaethau o fewn y cwmpas; effeithiolrwydd a goblygiadau cost y prosesau hyn; a mesurau a ddefnyddir i atal camddefnyddio systemau i nodi a chategoreiddio'r math hwn o gynnwys gan gynnwys cymhwysio prosesau cwyno ac apelio ar hyn o bryd.

**Darparu nodweddion grymuso defnyddwyr:** dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i roi'r opsiwn i ddefnyddwyr sy'n oedolion leihau'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â mathau penodol o gynnwys ac i hidlo defnyddwyr nad ydynt wedi cael eu dilysu.<sup>4</sup> Rydyn ni eisiau gwybod am y canlynol:

- canfod, dosbarthu a chymedroli cynnwys perthnasol ar wasanaethau o fewn y cwmpas; yr offer a'r nodweddion sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd i rymuso defnyddwyr i lywio cynnwys a rhyngweithiadau perthnasol rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr, gan gynnwys effeithiolrwydd, defnydd a chostau sy'n gysylltiedig â'r offer a'r nodweddion hyn; amlder cynnwys perthnasol i ddefnyddwyr sy'n oedolion ar draws gwasanaethau o fewn y cwmpas; a phrofiad defnyddwyr sy'n oedolion sydd â nodwedd warchoddedig wrth ddod ar draws cynnwys perthnasol, neu'r rheini sy'n debygol o gael eu heffeithio'n benodol gan gynnwys o'r fath.

**Darparu opsiynau ar gyfer dilysu manylion adnabod defnyddiwr:** dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i roi'r opsiwn i ddefnyddwyr sy'n oedolion ddilysu pwy ydynt. Rydyn ni eisiau gwybod am y canlynol:

- yr amgylchiadau lle cynnigir dilysu manylion adnabod ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, sut y gwneir hyn, a chost ac effeithiolrwydd y dulliau hyn; a'r goblygiadau ehangach sy'n gysylltiedig â dilysu manylion adnabod, gan gynnwys agweddau defnyddwyr tuag at gyfrifon wedi'u dilysu ac agweddau defnyddwyr tuag at weithredu'n eang.

---

<sup>4</sup> Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant hefyd sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn well rhag cynnwys pornograffig a mathau eraill o gynnwys sy'n niweidiol iddyn nhw, fel cynnwys yn hyrwyddo hunanladdiad neu anhwylder bwyta. Fe wnaethom gyhoeddi ein [cais am dystiolaeth ar y darpariaethau diogelu plant](#) fel rhan o ail gam ein gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein ar 10 Ionawr 2023 a byddwn yn ymgynghori ar ein codau ymarfer a'n canllawiau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yng Ngwanwyn 2024.

**Atal hysbysebion twyllodrus:** dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 a 2A i gael systemau a phrosesau cymesur ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag mathau penodol o hysbysebion twyllodrus ar eu gwasanaeth.<sup>5</sup> Rydyn ni eisiau gwybod am y canlynol:

- y prosesau a'r mecanweithiau (gan gynnwys eu heffeithiolrwydd, y costau, a'r risgiau o effeithiau anfwriadol) y mae gwasanaethau o fewn y cwmpas yn eu defnyddio ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o ddarparu hysbysebion a chanfod deunydd hysbysebu twyllodrus; prosesau a mecanweithiau ychwanegol yr awgrymir y gellid eu rhoi ar waith er mwyn i wasanaethau perthnasol gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â hysbysebu twyllodrus; ac unrhyw dystiolaeth berthnasol ynghylch rôl cyfryngwyr trydydd parti sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno hysbysebion ar wasanaethau o fewn y cwmpas a'u perthynas â'r gwasanaethau hynny.

**Mynediad at wybodaeth am ddefnydd o'r gwasanaeth gan blentyn sydd wedi marw:**

dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1, 2A a 2B i gynnwys yn y telerau gwasanaeth eu polisi ar geisiadau gan rieni, neu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, am wybodaeth am ddefnydd o'r gwasanaeth gan eu plentyn sydd wedi marw a darparu mecanweithiau pwrpasol i rieni ymgysylltu â'r darparwr gwasanaeth yn yr amgylchiadau hynny. Rydyn ni eisiau gwybod am y canlynol:

- pa fathau o dystiolaeth y gallai fod eu hangen ar wasanaethau am hunaniaeth neu berthynas y rhiant â'r plentyn, ac am farwolaeth y plentyn; pa fathau o wybodaeth y gallai rhieni ofyn amdani am ddefnydd eu plentyn o'r gwasanaeth, pa wybodaeth y mae gwasanaethau'n ei darparu neu y gallent ei darparu a sut, a'r heriau neu'r cyfaddawdu sy'n gysylltiedig â gwneud hynny; pa mor hir y dylai gymryd yn rhesymol i wasanaethau ddarparu'r math hwnnw o wybodaeth; a pha fecanweithiau sydd ar gael ar hyn o bryd i rieni gael gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau yn yr amgylchiadau hyn, a yw'r rhain yn hawdd eu defnyddio, a pha fecanweithiau eraill allai fod ar gael.

Rydym yn gofyn am dystiolaeth a mewnbwn gan unrhyw randdeiliaid sydd â diddordeb ar y cwestiynau a nodir yn y ddogfen hon er mwyn cyfrannu at ddatblygu rheoleiddio o'r cychwyn cyntaf. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn y cwestiynau, y gallai rhanddeiliaid ei hystyried yn berthnasol i Ofcom yn paratoi codau ymarfer a chanllawiau ar y meysydd polisi hyn. Gall hyn gynnwys gwybodaeth berthnasol ynghylch sut mae rhanddeiliaid yn paratoi ar gyfer rheoleiddio mewn awdurdodaethau eraill (y tu allan i'r DU). Rydym yn cydnabod efallai fod rhanddeiliaid eisoes wedi cyflwyno gwybodaeth berthnasol i Ofcom ar y pynciau hyn. Gall ymatebwyr ailgyflwyno gwybodaeth i ni os ydynt yn dymuno, neu ddod â chyflwyniad blaenorol i'n sylw.

Rydym yn croesawu ymatebion gan randdeiliaid sydd â diddordeb i'r cwestiynau a nodir yn adrannau 3 – 8 yn y ddogfen hon, a dylid ymateb gan ddefnyddio'r [ffurflen yn Atodiad 1](#).

**Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn dod i ben ar 20 Mai 2024.**

---

<sup>5</sup> Y darpariaethau hysbysebu twyllodrus yw'r unig ddyletswyddau sy'n benodol i hysbysebu yn y Ddeddf.

## 2. Cefndir

- 2.1 Yn yr adran hon, rydym yn rhoi crynodeb o sut mae'r cais hwn am dystiolaeth yn berthnasol i rannau eraill o'r drefn diogelwch ar-lein. Yna, rydym yn crynhoi'r dyletswyddau ychwanegol perthnasol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorio.

### Deddf Diogelwch Ar-lein 2023

---

- 2.2 Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023 ac mae'n gwneud cwmnïau sy'n gweithredu ystod eang o wasanaethau ar-lein, yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod pobl, yn enwedig plant yn fwy diogel ar-lein.
- 2.3 Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sydd o fewn cwrpas y Ddeddf, fel cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau negeseuon a pheiriannau chwilio, er enghraifft, gynnal asesiad risg cynnwys anghyfreithlon addas a digonol; egluro yn eu telerau gwasanaeth sut y byddant yn diogelu defnyddwyr; ei gwneud yn hawdd rhoi gwybod am gynnwys anghyfreithlon a chwyno, a rhoi sylw penodol i bwysigrwydd diogelu hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd wrth roi mesurau diogelwch ar waith.
- 2.4 Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant hefyd sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn well rhag cynnwys pornograffig a mathau eraill o gynnwys sy'n niweidiol iddyn nhw, fel cynnwys am hunanladdiad neu anhwylder bwyta.

### Dull fesul cam Ofcom ar gyfer gweithredu

---

- 2.5 Mae Ofcom yn defnyddio dull tri cham o weithredu trefn reoleiddio diogelwch ar-lein y DU:
- cam un: dyletswyddau sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon;
  - cam dau: dyletswyddau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, gan gynnwys rhag mynediad at bornograffi;
  - cam tri: dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorio.
- 2.6 Fe wnaethom gyhoeddi ein [dull gweithredu ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith](#) ym mis Hydref 2023. Mae'r dull hwn yn crynhoi'r camau allweddol y mae'n rhaid i gwmnïau eu cymryd dan y Ddeddf ac mae'n nodi ein cynlluniau ar gyfer rhoi cyfreithiau diogelwch ar-lein ar waith, gan gynnwys sut y byddwn yn rhoi camau un, dau a thri ar waith, yn ogystal â'n rhaglen oruchwylio a gwaith sy'n ymwneud â gwella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg oedolion a phlant yn y DU.<sup>6</sup> Mae hefyd yn nodi'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl i'r rheolau diogelwch ar-lein newydd hyn eu cyflawni.
- 2.7 Fe wnaethom gyhoeddi ein [hymgynghoriad ar y darpariaethau niwed anghyfreithlon](#) fel rhan o gam cyntaf ein gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein ar 9 Tachwedd 2023, ac ar hyn o bryd rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi ein datganiad cyn diwedd 2024. Fe wnaethom gyhoeddi ein hymgynghoriad ar [ganllawiau i ddarparwyr gwasanaeth sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig](#) ar 5 Rhagfyr 2023. Fe wnaethom gyhoeddi ein [cais am dystiolaeth](#) ar y darpariaethau diogelu plant fel rhan o ail gam ein gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein ar 10 Ionawr 2023. Byddwn

---

<sup>6</sup> Byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriad ar strategaeth tair blynedd ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y Gwanwyn 2024. Disgwylwn gyhoeddi ein datganiad yn yr Hydref 2024.

yn ymgynghori ar ein codau ymarfer a'n canllawiau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yng Ngwanwyn 2024. Drwy gydol 2024, byddwn yn gweithio i ystyried ymatebion i'n hymgyngoriadau gyda'r nod o roi nifer o godau ymarfer a chanllawiau ar waith yn 2025 i lywio cydymffurfriad darparwyr gwasanaethau ar-lein â'r Ddeddf.

## Cam tri: dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorio

---

### Rhoi cam tri ar waith

2.8 Oherwydd yr amrywiaeth eang o ddyletswyddau sy'n berthnasol i'r cam hwn, yn ogystal â'r angen i ystyried tystiolaeth rhanddeiliaid a gasglwyd o'n hymgyngoriadau cam un a cham dau, rydym wedi darwahanu ein galwadau am dystiolaeth ac ymgynghoriadau ar gyfer cam tri. Fe wnaethom gynnwys y drefn adrodd tryloywder ar gyfer ein [cais am dystiolaeth](#) ar niwed anghyfreithlon ar 6 Gorffennaf 2022 a gwnaethom gyhoeddi [cais am dystiolaeth](#) ar ymchwil a'r cyngor ar gyfer categorio ar 11 Gorffennaf 2023. Rydym nawr yn cyhoeddi'r cais hwn am dystiolaeth ar y **dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categorio**, a ddisgrifir isod.<sup>7</sup>

### Y gofrestr o wasanaethau wedi'u categorio

2.9 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system ar gyfer categorio gwasanaethau ar-lein ar sail nodweddion allweddol, gan gynnwys rhifau defnyddwyr a swyddogaethau. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categorio gydymffurfio â dyletswyddau ychwanegol yn dibynnu ar ba categori maent yn perthyn iddo (fel y nodir yn fanylach uchod).

2.10 Dan y Ddeddf, roedd yn ofynnol i Ofcom gynnal ymchwil a darparu cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar amodau'r trothwy ar gyfer pob categori gwasanaeth. Fe wnaethom gyflwyno ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 29 Chwefror 2024 a chyhoeddi ein cyngor ar 25 Mawrth 2024, ochr yn ochr â'r cais hwn am dystiolaeth. Dyma ein cyngor ar sut y dylid gosod y gwahanol drothwyon:

- a) **Categori 1:** Ein cyngor yw y dylai trothwyon categori 1 dargedu gwasanaethau sy'n bodloni'r naill set ganlynol o amodau neu'r llall:
  - i) Amod 1: defnyddio system argymell cynnwys; a bod â dros 34 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 50% o boblogaeth y DU;
  - ii) Amod 2: caniatáu i ddefnyddwyr anfon neu ail-rannu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr; a bod â mwy na 7 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU ar ran defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 10% o boblogaeth y DU.
- b) **Categori 2A:** Ein cyngor yw y dylai trothwyon categori 2A dargedu gwasanaethau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:
  - i) Yn wasanaeth chwilio ond nid yn wasanaeth chwilio fertigol; a
  - ii) Bod â thros 7 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan peiriant chwilio'r gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 10% o boblogaeth y DU.

---

<sup>7</sup> Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau tryloywder diogelwch ar-lein yn ystod Haf 2024. Gweler paragraff 2.24 a 2.25 isod.



c) **Categori 2B:** Ein cyngor yw y dylai trothwyon categori 2B dargedu gwasanaethau sy'n bodloni'r ddau faen prawf canlynol:

- i) Caniatáu i ddefnyddwyr anfon negeseuon uniongyrchol; a
- ii) Bod â dros 3 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 5% o boblogaeth y DU.

- 2.11 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cyngor hwn fel rhan o'r broses o benderfynu ar amodau trothwy categori 1, 2A a 2B sydd i'w gosod mewn is-ddeddfwriaeth. Ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei phasio, bydd Ofcom wedyn yn casglu gwybodaeth yn ôl yr angen, gan gynnwys o dan ein pwerau statudol i ofyn am wybodaeth gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Byddwn yn dadansoddi'r wybodaeth a gesglir am wasanaethau yn erbyn y trothwyon terfynol ac, yn unol â'r Ddeddf, yn llunio cofrestr cyhoeddedig o wasanaethau wedi'u categorio, a rhestr a gyhoeddwyd o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg.
- 2.12 Bydd y gofrestr gyhoeddwyd o wasanaethau wedi'u categorio yn pennu pa gwmnïau y bydd angen iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol yn y Ddeddf. Gan dybio y bydd yr is-ddeddfwriaeth ar gategoreiddio yn cael ei chwblhau erbyn Haf 2024, rydym yn disgwyl cyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categorio erbyn diwedd 2024.

## Dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorio

- 2.13 Mae'r Ddeddf yn gwneud pob darparwr gwasanaeth ar-lein sy'n cael ei reoleiddio yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw pobl yn fwy diogel ar-lein. Rhaid i ddarparwyr yr holl wasanaethau ar-lein sydd o fewn cwmphas y Ddeddf roi mesurau ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon<sup>8</sup> ac i ddiogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt.<sup>9</sup> Ar ben hynny, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi'u categorio gydymffurfio â dyletswyddau ychwanegol.<sup>10</sup> Mae'r dyletswyddau ychwanegol hyn wedi'u nodi isod.

## Dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau categori 1 yn unig

- 2.14 Mae amrywiaeth o ddyletswyddau a fydd yn berthnasol i wasanaethau categori 1 yn unig. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:
- 2.15 **Dyletswyddau ychwanegol o ran telerau gwasanaeth:** rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur i (a) sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'u telerau gwasanaeth wrth dynnu i lawr neu gyfyngu ar fynediad at gynnwys, neu wahardd neu atal defnyddwyr, a (b) gorfodi'r telerau gwasanaeth hynny. Rhaid i delerau o'r fath fod yn glir ac yn hygyrch, wedi'u hysgrifennu'n ddigon manwl, a rhaid iddynt gael eu defnyddio'n gyson. Rhaid darparu dulliau adrodd a chwyno i ddefnyddwyr mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.

---

<sup>8</sup> Ar gyfer dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon, gweler er enghraifft, adrannau 9-10 (dyletswyddau ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) ac adrannau 26-27 (dyletswyddau ar wasanaethau chwilio) y Ddeddf. Fe wnaethom ymgynghori ar y dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon yn ein [hymgyngoriad ar niwed anghyfreithlon](#)

<sup>9</sup> Ar gyfer dyletswyddau diogelwch plant gweler, er enghraifft, adrannau 11-13 (dyletswyddau ar wasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr) ac adrannau 28-30 (dyletswyddau ar wasanaethau chwilio) y Ddeddf.

<sup>10</sup> Mae dyletswyddau ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categorio mewn perthynas â chadw cofnodion ar gyfer yr asesiadau risg niwed anghyfreithlon ac asesiadau risg amddiffyn plant (adrannau 23(1), 34(9) y Ddeddf – gweler ein [hymgyngoriad ar niwed anghyfreithlon](#).)

- 2.16 **Gwarchodaeth ar gyfer cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol, a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd:**<sup>11</sup>
- gwarchod cynnwys cyhoeddwr newyddion:** rhaid i wasanaethau gymryd camau cyn gweithredu mewn perthynas â chyhoeddwr newyddion cydnabyddedig, neu mewn perthynas â chynnwys cyhoeddwr newyddion.
  - diogelu cynnwys newyddiadurol:** rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod pwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys newyddiadurol yn cael ei ystyried wrth gymedroli'r cynnwys hwn, yn enwedig wrth ystyried cyfyngiadau o ran tynnu cynnwys i lawr neu fynediad defnyddwyr a sancsiynau defnyddwyr ar gyfer rhannu cynnwys o'r fath, a bod â gweithdrefn gwyno benodol a chyflym ar waith.
  - diogelu cynnwys o bwysigrwydd democrataidd:** rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod pwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn cael ei ystyried wrth gymedroli'r cynnwys hwn, yn enwedig wrth ystyried cyfyngiadau o ran tynnu cynnwys i lawr neu fynediad defnyddwyr a sancsiynau defnyddwyr ar gyfer rhannu cynnwys o'r fath, ac mae'r rhain yn berthnasol yn yr un modd i amrywiaeth eang o safbwyntiau gwleidyddol.
  - asesiadau effaith:** rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gynnal asesiadau effaith sy'n ymwneud â hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys newyddiadurol.
- 2.17 **Darparu nodweddion grymuso defnyddwyr:** rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gynnig nodweddion i ddefnyddwyr sy'n oedolion y gellir eu defnyddio i leihau eu cysylltiad â mathau penodol o gynnwys cyfreithiol a hidlo cynnwys oddi wrth ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu. Rhaid sicrhau ei bod hi'n hawdd cael mynediad at yr adnoddau hyn. Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth hefyd gynnal asesiad cynnwys i fesur amllder y cynnwys hwn ar eu gwasanaeth, ymysg pethau eraill.
- 2.18 **Darparu ar gyfer dilysu manylion adnabod defnyddiwr:** rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gynnig yr opsiwn i bob defnyddiwr yn y DU sy'n oedolyn ddilysu pwy ydynt.

## Dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau categori 1 a 2A yn unig

- 2.19 **Atal hysbysebion twyllodrus:**<sup>12</sup> rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gael systemau a phrosesau cymesur ar waith i atal defnyddwyr rhag dod ar draws hysbysebion twyllodrus ar y gwasanaeth, lleihau'r amser y mae hysbysebion twyllodrus yn bresennol ar y gwasanaeth, a thynnu'n gyflym (yn achos categori 1) neu sicrhau nad yw unigolion bellach yn gallu dod ar draws cynnwys o'r fath yn neu drwy ganlyniadau chwilio'r gwasanaeth (yn achos categori 2A) pan hysbysir am gynnwys o'r fath, neu y deuir yn ymwybodol ohono.

## Dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau categori 1, 2A a 2B

<sup>11</sup> Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau ar bob darparwr sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant a phreifatrwydd. Mae'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth o fewn y cwmpas roi sylw penodol i bwysigrwydd diogelu hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd wrth benderfynu ar fesurau a pholisïau diogelwch a'u rhoi ar waith (Adrannau 22 a 33 y Ddeddf).

<sup>12</sup> Mae cynnwys chwilio a chynnwys defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cyfateb i drosedd twyll perthnasol yn dod o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelwch cyffredinol yn y Ddeddf; rydym wedi [ymgyngori](#) ar godau ymarfer arfaethedig.

- 2.20 **Mynediad at wybodaeth am ddefnydd o wasanaeth gan blentyn sydd wedi marw:**<sup>13</sup> rhaid i ddarparwyr gwasanaeth egluro yn eu telerau gwasanaeth (neu ar gyfer gwasanaethau categori 2A mewn datganiad sydd ar gael i'r cyhoedd) beth yw eu polisi ynghylch datgelu gwybodaeth i rieni plentyn sydd wedi marw am ddefnydd y plentyn o'r gwasanaeth. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gael mecanwaith i rieni ganfod yn rhwydd beth y mae angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau yn yr amgylchiadau hynny.
- 2.21 **Adrodd ar dryloywder:** rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi adroddiad tryloywder ar sail hysbysiadau y bydd Ofcom yn eu rhoi i ddarparwyr unwaith y flwyddyn. Rydym yn nodi'r dyletswyddau hyn a'n dull gweithredu ar gyfer sefydlu'r drefn tryloywder, gan gynnwys ein cynllun ymgynghori, ym mharagraffau 2.24-2.25 isod. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn rhan o'r cais hwn am dystiolaeth.
- 2.22 Nid yw'r Ddeddf yn rhagweld y bydd pob darparwr gwasanaethau wedi'u categorio yn mabwysiadu'r un dull o gydymffurfio â phob un o'r dyletswyddau hyn – fel mewn rhannau eraill o'r drefn hon, mater i ddarparwyr yw penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o gydymffurfio â'r gofynion o ystyried y risgiau y maent yn eu hwynebu.
- 2.23 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynhyrchu codau ymarfer a chanllawiau i helpu'r diwydiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Tybir bod gwasanaethau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau os ydynt yn dilyn y mesurau a nodir yn y codau. Bwriedir i ganllawiau hefyd fod yn gymorth i gydymffurfio a byddai disgwyl i wasanaethau ystyried canllawiau.

## Adrodd am dryloywder

- 2.24 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu trefn adrodd ar dryloywder gwasanaeth. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi adroddiad tryloywder ar sail hysbysiadau tryloywder y bydd Ofcom yn eu rhoi i ddarparwyr gwasanaeth unwaith y flwyddyn. Yna bydd Ofcom yn cyhoeddi ei adroddiad tryloywder ei hun yn crynhoi tueddiadau'r diwydiant ac yn nodi arferion da ar sail adroddiadau tryloywder gwasanaethau ac unrhyw wybodaeth ychwanegol, fel ymchwil newydd, i helpu i roi'r canfyddiadau hynny mewn cyd-destun ar gyfer y cyhoedd.
- 2.25 Mae gofynion adrodd ar dryloywder wedi'u targedu yn adnodd allweddol ar gyfer sbarduno newid effeithiol ac ystyrion o dan y drefn diogelwch ar-lein.<sup>14</sup> I gydnabod hyn, fe wnaethom ddechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar, gan ofyn pa wybodaeth fyddai fwyaf defnyddiol i'w chynnwys yn adroddiadau tryloywder gwasanaethau ac adroddiadau tryloywder Ofcom ei hun yn ein [cais am dystiolaeth](#) am niwed anghyfreithlon ar 6 Gorffennaf 2023. Byddwn yn ymgynghori ar ein canllawiau tryloywder diogelwch ar-lein yn ystod Haf 2024.

---

<sup>13</sup> Ar wahân, bydd gan Ofcom bŵer disgrisiwn dan adran 101 o'r Ddeddf i fynnu bod darparwyr gwasanaeth yn darparu gwybodaeth am ddefnydd plentyn o wasanaeth, pan wneir cais gan grwner mewn cysylltiad ag ymchwiliad i farwolaeth plentyn. Byddwn yn nodi ein polisi ar gyfer defnyddio ein pwerau adran 101 maes o law.

<sup>14</sup> Ofcom (2023) [Transparency Reporting: The UK Regulatory Perspective](#).

## Y canlyniadau diogelwch ar-lein rydym yn eu ceisio

---

- 2.26 Cenhadaeth drosfwaol Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Yng nghydestun ein cyfrifoldebau diogelwch ar-lein newydd, ein nod yw sicrhau bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cymryd camau i leihau niwed a gwneud defnyddwyr yn fwy diogel.<sup>15</sup>
- 2.27 Er mai cwmnïau fydd yn gyfrifol am benderfynu pa fesurau diogelwch y mae angen iddynt eu rhoi ar waith o ystyried y risgiau y mae eu gwasanaethau'n eu hachosi i ddefnyddwyr, rydym yn disgwyl i weithredu'r Ddeddf gyflawni pedwar canlyniad allweddol i sicrhau bod pobl yn y DU yn fwy diogel ar-lein:
- llywodraethu** diogelwch cryfach mewn gwasanaethau ar-lein,
  - gwasanaethau ar-lein **wedi'u dylunio a'u gweithredu** gyda diogelwch mewn golwg,
  - mwy o **ddewis** i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael rheolaeth fwy ystyrlon dros eu profiadau ar-lein, a
  - defnyddwyr yn **ymddiried** eu bod yn cael eu diogelu ar-lein, gan gynnwys drwy hyrwyddo tryloywder ynghylch mesurau diogelwch gwasanaethau a'r camau y mae Ofcom yn eu cymryd i'w gwella.<sup>16</sup>
- 2.28 Mae'r tri cham gweithredu yn flocliau adeiladu sylfaenol sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar canlyniad hyn. Gydag amseriad gweithredu'n cael ei yrru gan ddeddfwriaeth, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu fesul cam. Mae camau un a dau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â niwed anghyfreithlon a diogelu plant ar-lein yn y drefn honno a datblygu ein nodau strategol ymhellach o ran **llywodraethu** cadarn ac **asesu risg a dylunio a gweithrediadau** mwy diogel o fewn gwasanaethau. Mae'r trydydd cam gweithredu hwn yn ymhelaethu ar y gwaith paratoi hwnnw, gyda phwyslais penodol ar alluogi **dewis**, meithrin **ymddiriedaeth** defnyddwyr, a darparu amddiffyniadau gwell ar gyfer mathau penodol o gynnwys.
- 2.29 Uchelgais Llywodraeth y DU ar gyfer cam tri oedd rhoi mesurau diogelu ychwanegol i ddefnyddwyr rhyngwyd yn y DU mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u categoreiddio, er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio eu polisiau'n gyson (dim ond dileu neu rwystro cynnwys sydd wedi'i wahardd mewn telerau gwasanaeth clir a hygyrch), a'u bod yn fwy tryloyw ynghylch eu mesurau diogelwch. Bydd defnyddwyr yn cael mwy o ddewis ynghylch y cynnwys maen nhw'n ei weld, a bydd ganddyn nhw fwy o reolaeth dros y bobl y maent yn rhyngweithio â nhw. Bydd defnyddwyr hefyd yn cael mwy o wybodaeth am oblygiadau'r dewisiadau a wnânt. Mae darpariaethau penodol i fynd i'r afael â thwyll ar-lein. Bydd amddiffyniadau craidd yn cael eu rhoi i gynnwys cyhoeddwyr newyddion, cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd sy'n hanfodol i drafodaeth ddemocrataidd.
- 2.30 Fel y nodir isod, mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gam cychwynnol tuag at ddeall y newidiadau sydd eu hangen gan wasanaethau i alluogi'r canlyniadau hyn. Mae angen i ni ddeall beth y gellir ei gyflawni yn y maes hwn i argymhell cynigion ar godau ac arweiniad a all gyflawni'r newidiadau trawsnewidiol rydym yn eu ceisio er diogelwch defnyddwyr. Dyna pam mae mewnbyn rhanddeiliaid mor bwysig ar y cam hwn o'r broses.

---

<sup>15</sup> I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein [cynllun gwaith arfaethedig](#) ar gyfer 2024/25

<sup>16</sup> Gweler Ffigur 1, Map o [ddull gweithredu Ofcom ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein - Ofcom](#).

## Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

---

- 2.31 Mae'n rhaid i ni ymgynghori'n eang ynghylch unrhyw gynigion neu benderfyniadau sy'n gosod neu'n diwygio rhwymedigaethau rheoleiddio. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid o'r dechrau un wrth ddatblygu rheoleiddio. Felly, rydym wedi bod yn galw am dystiolaeth ar bob cam o'n gwaith o ddatblygu'r drefn diogelwch ar-lein.
- 2.32 Rydym yn gofyn am dystiolaeth a mewnbwn gan unrhyw rhanddeiliaid sydd â diddordeb ar y cwestiynau a nodir yn y ddogfen hon. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn y cwestiynau, y gallai rhanddeiliaid ei hystyried yn berthnasol i Ofcom wrth baratoi codau ymarfer a chanllawiau ar y meysydd polisi hyn. Gall hyn gynnwys gwybodaeth berthnasol ynghylch sut mae rhanddeiliaid yn paratoi ar gyfer rheoleiddio mewn awdurdodaethau eraill (y tu allan i'r DU).
- 2.33 Lle mae cwestiynau yn y cais hwn am dystiolaeth yn ymddangos yn debyg i'r rhai a ofynnwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol, rydym yn tynnu sylw at amcanion polisi unigryw'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categorio sy'n destun y cais hwn am dystiolaeth. Bydd darparwyr gwasanaethau wedi'u categorio yn cynrychioli is-set o'r diwydiant sy'n cael ei reoleiddio'n gyffredinol.
- 2.34 Os bydd rhanddeiliaid yn credu eu bod wedi rhoi tystiolaeth berthnasol i ni o'r blaen ar unrhyw faes y mae'r cais hwn am dystiolaeth yn berthnasol iddo, gallant ailgyflwyno gwybodaeth i ni, neu ddod â chyflwyniad blaenorol i'n sylw gydag unrhyw ddiweddariadau neu ychwanegiadau perthnasol.
- 2.35 Os yw rhanddeiliaid yn credu bod tystiolaeth benodol yn berthnasol i nifer o gwestiynau yn y cais hwn am dystiolaeth, tynnwch sylw at hyn yn eich ymateb, os gwelwch yn dda. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion yn ofalus wrth i ni ddechrau datblygu ein codau ymarfer a'n canllawiau ar gyfer trydydd cam gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein.

# 3. Dyletswyddau ychwanegol o ran telerau gwasanaeth

Mae'r dyletswyddau ychwanegol o ran telerau gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur i sicrhau mai dim ond yn unol â'u telerau gwasanaeth y tynnir i lawr neu y cyfyngir mynediad at gynnwys, a gwahardd neu atal defnyddwyr. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 orfodi'n gyson unrhyw ddarpariaethau yn eu telerau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r camau hyn. Bydd Ofcom yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau categori 1 i'w helpu i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

## Dyletswyddau yn y Ddeddf

- 3.1 Yn ogystal â'r dyletswyddau telerau gwasanaeth y gwnaethom ymgynghori arnynt dan gam un<sup>17</sup> a'r dyletswyddau telerau gwasanaeth y byddwn yn ymgynghori arnynt dan gam dau<sup>18</sup>, bydd gan ddarparwyr gwasanaethau a ddynodwyd yn gategori 1 ddyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud â sut maen nhw'n cyfathrebu ac yn gorfodi rhai darpariaethau penodol yn eu telerau gwasanaeth.
- 3.2 Mae'r dyletswyddau telerau gwasanaeth ychwanegol yn ymwneud yn unig â darpariaethau yn y telerau gwasanaeth sy'n nodi pa gynnwys sydd wedi'i wahardd ar y gwasanaeth, i ba gynnwys y bydd y darparwr yn cyfyngu ar fynediad defnyddwyr, ac ym mha achosion y bydd y darparwr yn atal neu'n gwahardd defnyddiwr rhag defnyddio'r gwasanaeth.<sup>19</sup> Yn yr adran hon, rydym yn cyfeirio at y darpariaethau y mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â hwy fel "telerau gwasanaeth perthnasol".
- 3.3 Dan y dyletswyddau telerau gwasanaeth ychwanegol, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 **ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u llunio i sicrhau'r canlynol:**
  - a) **nad ydynt yn tynnu i lawr gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, yn cyfyngu ar fynediad defnyddwyr at gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr nac yn atal neu wahardd defnyddwyr rhag defnyddio'r gwasanaeth ac eithrio yn unol â'r telerau gwasanaeth perthnasol;**<sup>20</sup> ac

---

<sup>17</sup> Mae darparwyr gwasanaeth hefyd yn ddarostyngedig i amrywiol ddyletswyddau telerau gwasanaeth sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon (adrannau 10(4)-(8), 21(3), 25(2), 27(5)-(8), 32(3) y Ddeddf, gweler ein [hymgyngoriad ar niwed anghyfreithlon](#)). Mae darparwyr gwasanaethau sy'n cyhoeddi cynnwys pornograffig hefyd yn rhwym wrth ddyletswyddau telerau gwasanaeth sy'n ymwneud â dilysu oedran neu amcangyfrif oedran (adran 81(5) y Ddeddf – gweler ein [hymgyngoriad ar ddarparwyr cynnwys pornograffig](#)).

<sup>18</sup> Mae darparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant yn ddarostyngedig i amrywiol ddyletswyddau telerau gwasanaeth sy'n ymwneud â diogelwch plant (adrannau 12(9)-(13); 21(3); 25(2); 29(5)-(8); 32(3) y Ddeddf – byddwn yn ymgynghori ar y dyletswyddau hyn yn ein hymgyngoriad ar amddiffyn plant yn ystod Gwanwyn 2024.

<sup>19</sup> Adrannau 71 a 72 y Ddeddf.

<sup>20</sup> Adran 71(1) y Ddeddf.

- b) **gorfodi unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â thynnu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr i lawr, cyfyngu ar fynediad defnyddwyr at gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr neu atal neu wahardd defnyddwyr rhag defnyddio'r gwasanaeth.**<sup>21</sup>
- 3.4 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 hefyd **sicrhau bod telerau gwasanaeth perthnasol:**
- a) **yn glir, yn hygyrch ac yn cael ei gyfleu'n ddigon manwl** fel y gall defnyddwyr fod yn rhesymol sicr a fyddai cyfiawnhad i'r darparwr gymryd y camau penodedig mewn achos penodol; ac
- b) **yn cael eu defnyddio'n gyson.**<sup>22</sup>
- 3.5 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 ddarparu prosesau adrodd a chwyno tryloyw a hawdd eu defnyddio, (gan gynnwys gan blant) sy'n galluogi defnyddwyr a, lle bo hynny'n berthnasol, y bobl yr effeithir arnynt<sup>23</sup> i wneud y canlynol:
- a) rhoi gwybod am gynnwys neu ddefnyddwyr sydd yn eu tyb nhw'n cael eu cynnwys yn y **telerau gwasanaeth perthnasol;**
- b) cwyno am gynnwys sydd yn eu barn nhw'n cael eu cynnwys yn y **telerau gwasanaeth perthnasol;**
- c) cwyno pan fo eu cynnwys wedi'i dynnu i lawr neu pan fo mynediad ato wedi'i gyfyngu mewn perthynas â'r **telerau gwasanaeth perthnasol**, neu eu bod wedi'u gwahardd neu eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth; a
- d) cwyno os ydynt yn credu nad yw'r gwasanaeth yn cyflawni ei ddyletswyddau amrywiol dan yr adran hon.<sup>24</sup>

**Rhaid i wasanaethau hefyd nodi'r broses gwyno yn eu telerau gwasanaeth a chymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion.**<sup>25</sup>

- 3.6 Nid yw'r dyletswyddau telerau gwasanaeth ychwanegol yn atal darparwr rhag tynnu cynnwys i lawr, cyfyngu ar fynediad defnyddwyr at gynnwys neu atal neu wahardd defnyddiwr pan fydd y camau hynny'n cael eu cymryd:
- a) i gydymffurfio â'i ddyletswyddau i ddiogelu unigolion rhag cynnwys anghyfreithlon;<sup>26</sup>
- b) i gydymffurfio â'i ddyletswyddau i amddiffyn plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt;<sup>27</sup>

<sup>21</sup> Adran 72(3) y Ddeddf.

<sup>22</sup> Adran 72(4) y Ddeddf.

<sup>23</sup> Mae "person yr effeithir arno" yn berson, nad yw'n ddefnyddiwr y gwasanaeth dan sylw, sydd yn y Deyrnas Unedig ac sydd: yn destun y cynnwys; yn aelod o ddoethbarth neu grŵp o bobl sydd â nodwedd benodol sydd wedi'i thargedu gan y cynnwys; yn rhiant i, neu'n oedolyn arall sydd â chyfrifoldeb dros, blentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n destun y cynnwys; neu yn oedolyn sy'n darparu cymorth i ddefnyddio'r gwasanaeth i oedolyn arall ac sydd un ai'n defnyddio'r gwasanaeth neu'n destun y cynnwys hwnnw (adran 74(6) y Ddeddf).

<sup>24</sup> Adran 72(5) i (9) y Ddeddf. Mae gan ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 ddyletswyddau cwyno hefyd o dan adran 21 o'r Ddeddf: rhaid iddynt weithredu gweithdrefn gwyno sy'n galluogi defnyddwyr i gwyno nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau sy'n ymwneud â grymuso defnyddwyr (adran 15), cynnwys o bwysigrwydd democrataidd (adran 17), cynnwys cyhoeddwy newyddion (adran 18), cynnwys newyddiadurool (adran 19) a rhyddid mynegiant a phreifatrwydd (adran 22(4), (6) neu (7)). Mae dyletswyddau cwyno hefyd ar gyfer gwasanaethau Categori 1, Categori 2A a Chategori 2B sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth am ddefnydd o wasanaeth gan blant sydd wedi marw a oedd yn ddefnyddwyr (adran 75(5), (6)).

<sup>25</sup> Adran 72(6) a (7) y Ddeddf

<sup>26</sup> Adran 71(2)(a)(i).

<sup>27</sup> Adran 71(2)(a)(ii).

- c) i osgoi atebolrwydd troseddol neu sifil ar ran y darparwr a allai godi o beidio â chymryd y camau;<sup>28</sup>
- d) ar y sail bod defnyddiwr wedi cyflawni trosedd;<sup>29</sup> neu
- e) mewn perthynas â ‘cynnwys defnyddwyr’ (sy’n gynnwys sydd, ymysg pethau eraill, yn gyfystyr â chynnig i werthu nwyddau neu gyflenwi gwasanaethau), neu’r telerau gwasanaeth sy’n delio â thrin cynnwys defnyddwyr.<sup>30</sup>

## Gweithredu’r Ddeddf

---

- 3.7 Bydd Ofcom yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau categori 1 i’w helpu i gydymffurfio â’u dyletswyddau yn y maes hwn.<sup>31</sup>

## Cwestiynau i randdeiliaid

---

- 3.8 Yn yr adran hon, mae gennym ddiddordeb mewn deall mwy am sut mae darparwyr gwasanaethau ar-lein yn gwneud y canlynol ar hyn o bryd neu sut gallent:
- a) sicrhau bod eu telerau gwasanaeth yn galluogi defnyddwyr i ddeall pryd a sut y cymerir gwahanol fathau o gamau gorfodi yn erbyn cynnwys neu gyfrifon;
  - b) mesur a yw defnyddwyr yn darllen, yn deall, ac yn dilyn eu rheolau; ac
  - c) osgoi gor-orfodi neu dan-orfodi eu telerau gwasanaeth wrth weithredu systemau cymedroli.
- 3.9 **Rydyn ni’n croesawu ymatebion i’r cwestiynau isod, yn enwedig cwestiynau 3-5, 10-11, 12(c) a 13(b) sydd yn allweddol ar gyfer datblygu canllawiau yn y maes hwn yn ein barn ni. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol ym marn rhanddeiliaid.**

## Telerau gwasanaeth a datganiadau polisi

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 1:** Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i wella eglurder a hygyrchedd telerau gwasanaeth a datganiadau polisi cyhoeddus?

Cyflwynwch dystiolaeth i ddangos pa nodweddion sy’n gwneud y telerau neu’r polisiâu’n glir ac yn hygyrch.

**Cwestiwn 2:** Sut ydych chi’n meddwl y gall darparwyr gwasanaeth helpu defnyddwyr i ddeall a ellid cyfiawnhau camau a gymerwyd gan y darparwr yn erbyn cynnwys (gan gynnwys ei dynnu i lawr neu gyfyngu ar fynediad ato) neu a fyddai camau a gymerwyd i wahardd neu atal defnyddiwr yn cael eu cyfiawnhau o dan y telerau gwasanaeth?

Yn eich ymateb i’r cwestiwn hwn, ystyriwch a darparwch unrhyw dystiolaeth sy’n ymwneud â lefel y manylder a ddarperir yn y telerau gwasanaeth eu hunain, a ddylai gwasanaethau ddarparu deunyddiau cefnogi defnyddwyr i helpu defnyddwyr i ddeall telerau’r gwasanaeth ac, os felly, pa fathau o ddeunyddiau cefnogi defnyddwyr y gallant neu y dylent eu darparu.

---

<sup>28</sup> Adran 71(2)(b).

<sup>29</sup> Adran 71(3).

<sup>30</sup> Adran 71(4).

<sup>31</sup> Adran 73 y Ddeddf.



## Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 3:** Sut ydych chi'n sicrhau bod defnyddwyr yn deall y darpariaethau yn eich telerau gwasanaeth ynghylch tynnu cynnwys i lawr, cyfyngu ar fynediad at gynnwys, neu atal neu wahardd defnyddiwr rhag defnyddio'r gwasanaeth a'r camau y gallech eu cymryd mewn ymateb i dorri'r telerau gwasanaeth hynny?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) sut rydych chi'n sicrhau bod eich telerau gwasanaeth yn galluogi defnyddwyr i ddeall beth sy'n cael ei ganiatáu a beth sydd ddim yn cael ei ganiatáu ar eich gwasanaeth, a sut byddwch chi'n ymateb i achosion o dorri'r rheolau hyn gan ddefnyddwyr;
- b) unrhyw ystyriaethau perthnasol ynghylch y risg y bydd gweithredwyr gwael yn manteisio ar dryloywder ynghylch eich telerau gwasanaeth a sut y cânt eu gorfodi;
- c) manylion am unrhyw ddeunyddiau cymorth i ddefnyddwyr neu swyddogaethau rydych chi'n eu darparu i helpu defnyddwyr i ddeall neu lywio drwy eich telerau gwasanaeth neu gynnyrch cysylltiedig yn well; ac
- d) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 4:** Disgrifiwch y prosesau sydd gennych ar waith i fesur ymgysylltiad a dealltwriaeth defnyddwyr o'ch telerau gwasanaeth a sut rydych yn gwneud gwelliannau pan fo angen.

Yn eich ymateb i'r cais hwn, dylech ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) sut rydych chi'n mesur ymgysylltiad/dealltwriaeth defnyddwyr o'ch telerau gwasanaeth a'r metrigau rydych chi'n eu casglu;
- b) unrhyw ymchwil ymddygiadol rydych chi'n ei chynnal i ddeall yn well yr ymgysylltiad â/neu ddealltwriaeth o'ch telerau gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw ymchwil i resymau pam nad yw defnyddwyr yn ymgysylltu â thelerau gwasanaeth);
- c) unrhyw fesurau rydych chi wedi'u cymryd i wella ymgysylltiad â/neu ddealltwriaeth o'ch telerau gwasanaeth, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) sut roedd canfyddiadau unrhyw ymchwil ymddygiadol wedi dylanwadu ar y mesurau hyn a/neu unrhyw newidiadau i'r dyluniad (e.e. awgrymiadau i atgoffa defnyddwyr i ddarllen telerau'r gwasanaeth, newidiadau i strwythur telerau'r gwasanaeth neu newidiadau i sut mae defnyddwyr yn cael mynediad at delerau'r gwasanaeth ac ati);
- d) costau'r prosesau hyn (gan gynnwys dylunio, gweithredu a pharhau i ddefnyddio'r prosesau hyn neu fersiynau wedi'u diweddarau o'r prosesau hyn);
- e) sut rydych yn gwerthuso effeithiolrwydd mesurau a gynlluniwyd i wella ymgysylltiad â/neu ddealltwriaeth o'ch telerau gwasanaeth; ac
- f) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 5:** Disgrifiwch unrhyw dystiolaeth sydd gennych am effeithiolrwydd defnyddio gwahanol fathau o fecanweithiau i hyrwyddo cydymffurfiaeth â thelerau gwasanaeth neu newid ymddygiad defnyddwyr os bydd torri, neu achos posibl o dorri, telerau gwasanaeth.

Yn eich ymateb i'r cais hwn, dylech ddarparu'r canlynol:

- a) unrhyw dystiolaeth am effeithiolrwydd mesurau gorfodi fel tynnu cynnwys i lawr, cyfyngu ar fynediad at gynnwys, neu atal neu wahardd cyfrifon defnyddwyr mewn perthynas ag annog defnyddwyr i gydymffurfio ag agweddau penodol ar delerau gwasanaeth yn y dyfodol;
- b) unrhyw dystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw'r mecanweithiau nad ydynt yn rhai gorfodi o ran lleihau achosion o dorri telerau'r gwasanaeth neu dor-amodau a ailadroddir, gan gynnwys y math o fecanwaith nad yw'n gorfodi a sut y caiff ei weithredu

- (e.e. ysgogiadau i ddefnyddwyr ystyried priodoldeb eu cynnwys cyn ei bostio i'r gwasanaeth (gyda neu heb ddolenni at ddarpariaethau penodol yn y telerau gwasanaeth), neu awgrymiadau i ddefnyddwyr adolygu darpariaethau penodol o fewn y telerau gwasanaeth pan ganfyddir bod eu cynnwys yn torri'r darpariaethau hyn);
- c) unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth am gostau llunio a gweithredu gwahanol fathau o fecanweithiau gorfodi neu fecanweithiau nad ydynt yn rhai gorfodi (gan gynnwys costau'r ymchwil y tu ôl i ddylunio, gweithredu ac asesu/astudio'r mecanweithiau hyn yn barhaus); ac
  - d) unrhyw wybodaeth arall.

## Prosesau adrodd a chwyno

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 6:** Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i wella tryloywder, hygyrchedd, hwylustod ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o'u mecanweithiau adrodd a chwyno?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, rhowch dystiolaeth i ddangos pa nodweddion sy'n gwneud y systemau adrodd a chwyno i ddefnyddwyr yn effeithiol, gan gynnwys y canlynol:

- a) llwybrau adrodd neu gwyno ar gyfer defnyddwyr cofrestredig, defnyddwyr sydd heb gofrestru a darpar achwynwyr (sef pobl yr effeithir arnynt nad ydynt yn ddefnyddwyr y gwasanaeth);
- b) sut i sicrhau nad yw mecanweithiau adrodd a chwyno yn cael eu camddefnyddio;
- c) y dewisiadau a'r ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â chynllunio'r mecanweithiau hyn;
- d) sut y gellir neu y dylid cefnogi defnyddwyr i adrodd/cwyno am bryderon penodol (e.e. defnyddwyr eraill, mathau penodol o gynnwys neu, tynnu cynnwys apêl i lawr neu waharddiadau cyfrif);
- e) sut i sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch i bob defnyddiwr (e.e. defnyddwyr anabl, plant);
- f) a yw defnyddwyr yn cael gwybod bod eu hadroddiadau yn ddiennw (e.e., ni fydd defnyddwyr eraill yn cael gwybod pwy sydd wedi adrodd am eu cynnwys neu eu cyfrif);
- g) unrhyw ddeunyddiau cefnogi defnyddwyr sy'n egluro sut i ddefnyddio'r broses adrodd a chwyno a beth fydd yn digwydd pan fydd defnyddwyr yn ymgysylltu â'r systemau hyn; ac
- h) unrhyw wybodaeth arall.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 7:** Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth am yr arferion gorau ar gyfer mecanweithiau adrodd a/neu gwynion effeithiol, a sut mae'r prosesau hyn yn cael eu cynllunio a'u cynnal a'u cadw?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu tystiolaeth ynghylch y canlynol:

- a) sut mae defnyddwyr yn rhoi gwybod am gynnwys niweidiol ar eich gwasanaeth(au) (gan gynnwys lleoliad ac amlygrwydd y mecanweithiau i ddefnyddwyr, ac unrhyw sgrinluniau y gallwch eu darparu);
- b) a oes mecanweithiau neu brosesau adrodd neu gwyno ar wahân neu wahanol ar gyfer gwahanol fathau o gynnwys a/neu wahanol fathau o ddefnyddwyr, gan gynnwys plant;
- c) sut mae defnyddwyr yn apelio yn erbyn tynnu cynnwys i lawr, cyfyngiadau ar gynnwys neu atal neu wahardd ar cyfrifon;
- d) pa fath o gynnwys neu ymddygiad y gall defnyddwyr a'r rhai sydd ddim yn ddefnyddwyr wneud cwyn neu adrodd amdano, gan gynnwys unrhyw restrau neu gategoriâu penodol;

- e) a oes angen i ddefnyddwyr greu cyfrifon i gael mynediad at fecanweithiau adrodd a chwyno (os oes sawl mecanwaith, dylech ddarparu gwybodaeth ar gyfer pob mecanwaith);
- f) a yw mecanweithiau adrodd a chwyno yn effeithiol, o ran:
  - i) galluogi defnyddwyr i roi gwybod yn hawdd am gynnwys a allai fod, yn eu barn nhw, yn fathau o gynnwys a bennir yn y **telerau gwasanaeth perthnasol**, a sut i bennu effeithiolrwydd;
  - ii) galluogi, cefnogi neu wella cywirdeb adroddiadau defnyddwyr mewn perthynas â nodi'r mathau o gynnwys a bennir yn y **telerau gwasanaeth perthnasol**, a sut i bennu effeithiolrwydd;
  - iii) galluogi, cefnogi neu wella gallu'r darparwr i ganfod a chymryd camau gorfodi yn erbyn cynnwys neu ddefnyddwyr a bennir yn y **telerau gwasanaeth perthnasol** yn amserol, a sut i benderfynu ar effeithiolrwydd;
- g) a oes unrhyw ddulliau adrodd neu gwyno rydych chi'n ystyried eu bod yn llai effeithiol o ran canfod mathau penodol o gynnwys, a sut rydych chi'n penderfynu ar hyn;
- h) y defnydd o fflagwyr dibynadwy (ac os dylid rhoi blaenoriaeth i adroddiadau gan fflagwyr dibynadwy dros adroddiadau neu gwynion gan ddefnyddwyr);
- i) y gost sy'n gysylltiedig â chynllunio a chynnal mecanweithiau adrodd a/neu gwynion, gan gynnwys unrhyw faterion, anawsterau neu ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chynyddu eu maint; ac
- j) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 8:** Pa gamau y mae gwasanaethau'n eu cymryd neu y dylent eu cymryd mewn ymateb i adroddiadau neu gwynion am gynnwys sydd o bosibl wedi'i wahardd neu gyfrifon sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch a allai fod wedi'i wahardd?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) pa gyfran o adroddiadau sy'n cael eu hadolygu, a pha gyfran sy'n arwain at gymryd camau gan gynnwys;
  - i) unrhyw amrywiad posibl yn nifer yr adroddiadau neu'r cwynion a'r gallu i weithredu arnyh nhw (h.y. y gyfran sy'n arwain at dynnu i lawr neu gamau eraill) mewn perthynas â gwahanol ddarpariaethau yn eich telerau gwasanaeth;
  - ii) unrhyw wahaniaethau mewn achosion sy'n ymwneud ag adroddiadau/cwynion lluosog am un darn o gynnwys neu ddefnyddiwr;
  - iii) y costau sy'n gysylltiedig ag adolygu adroddiadau;
- b) a yw unrhyw adroddiadau neu gwynion yn cael eu cyflymu neu eu cyfeirio at dimau arbenigol, gan gynnwys:
  - a. y meini prawf ar gyfer hyn; a
  - b. y gost sy'n gysylltiedig â hwyluso hyn;
- c) i ba raddau y mae unigolion perthnasol (crewyr cynnwys, defnyddwyr, a defnyddwyr sydd heb gofrestru neu sydd wedi allgofnodi) yn cael gwybod am gynnydd eu hadroddiad neu eu cwyn, gan gynnwys:
  - i) os nad ydynt, y rhesymau pam;
  - ii) os ydynt, beth sy'n cael ei gynnwys pan fydd defnyddwyr yn cael gwybod am gynnydd eu hadroddiad (e.e. derbyn yr adroddiad, cynnydd yr adroddiad drwy broses adolygu'r gwasanaeth, a/neu ganlyniad yr adroddiad); a

- iii) y mecanweithiau/proses dechnegol i roi gwybod i unrhyw unigolion perthnasol am gynnydd eu hadroddiad (e.e. a yw defnyddwyr sydd heb gofrestru yn cael cyfle i roi cyfeiriad e-bost);
- iv) unrhyw wahaniaethau mewn ymatebion i wahanol fathau o adroddiadau (e.e. adroddiadau am gynnwys neu gyfrif mae defnyddiwr yn credu sy'n torri telerau'r gwasanaeth, am fethiant y darparwr i weithredu yn unol â'i delerau gwasanaeth, neu am hygyrchedd, eglurder neu ddirnadwyedd y telerau gwasanaeth hynny);
- v) y costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i adroddiadau;
- d) beth sy'n digwydd i'r cynnwys wrth iddo gael ei asesu/prosesu (e.e. os a sut y gallai gael ei ganfod neu ei weld gan ddefnyddwyr eraill);
- e) unrhyw amserlenni mewnlol neu allanol neu ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer adolygu a/neu weithredu ar adroddiadau neu gwynion;
- f) unrhyw ddeunyddiau cefnogi defnyddwyr sy'n cael eu defnyddio neu y dylid eu defnyddio i helpu defnyddwyr i ddeall ymatebion y gwasanaeth i adroddiadau, neu sut y gall defnyddwyr apelio yn erbyn penderfyniadau cymedroli am eu cynnwys neu eu cyfrifon, neu benderfyniadau a wneir mewn ymateb i adroddiadau y maent wedi'u cyflwyno am gynnwys neu gyfrifon defnyddwyr eraill; ac
- g) unrhyw wybodaeth arall.

## Cymedroli

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 9:** A ellid gwneud gwelliannau i'r trefniadau cymedroli cynnwys er mwyn gorfodi telerau gwasanaeth yn fwy cyson, heb gyfyngu'n ormodol ar weithgarwch defnyddwyr? Os felly, pa welliannau y gellid eu gwneud?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) gwelliannau o ran diogelwch defnyddwyr a hawliau defnyddwyr (e.e. rhyddid mynegiant), yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chostau posibl neu sbardunau cost;
- b) tystiolaeth o effeithiolrwydd y systemau cymedroli presennol gan gynnwys unrhyw enghreifftiau perthnasol o gywirdeb, rhagfarn a/neu effeithiolrwydd prosesau cymedroli penodol; ac
- c) unrhyw wybodaeth arall.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 10:** Disgrifiwch yr amgylchiadau lle rydych wedi cymryd neu y byddech yn cymryd camau gorfodi yn erbyn cynnwys neu ddefnyddwyr y tu allan i'r hyn a nodir yn gyhoeddus yn eich telerau gwasanaeth a'r rhesymau dros gymryd y camau hyn.

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) y mathau o gamau a gymerwyd, ac amllder y camau hyn (gan gynnwys yn ôl y math o gam);
- b) sut y daethpwyd â chynnwys neu ddefnyddwyr perthnasol i'ch sylw neu sut y byddent yn cael eu dwyn i'ch sylw;
- c) unrhyw bolisiau, dulliau neu brosesau rydych wedi'u defnyddio neu y byddech yn eu defnyddio i lywio penderfyniadau cymedroli yn yr achosion hyn;
- d) a yw polisiau newydd yn cael eu hysgrifennu neu a fyddent yn cael eu hysgrifennu mewn ymateb i'r achosion hyn, ac os felly:

- i) a yw'r polisïau newydd hyn yn cael eu hysgrifennu cyn cymryd camau gorfodi neu ar ôl hynny, a pha bryd; a
  - ii) pryd a sut y byddai'r polisïau newydd hyn yn cael eu hychwanegu neu eu cynnwys yn eich telerau gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd; ac
- e) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 11:** Os ydych chi'n cael gwybod am gynnwys neu gyfrif sydd o bosibl yn torri eich telerau gwasanaeth, disgrifiwch unrhyw amgylchiadau perthnasol na fyddai'n arwain at gamau gorfodi, ar unwaith neu o gwbl.

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, disgrifiwch (gydag enghreifftiau) unrhyw amgylchiadau perthnasol sydd:

- a) yn ymwneud â materion neu heriau yn eich system cymedroli cynnwys (e.e. gwall cymedrolwr, bylchau gwybodaeth iaith neu leol, nid yw cynnwys ar gael mwyach (e.e. ffrwd fyw), mae naws/cyd-destun y cynnwys yn golygu y gwelir nad yw'n torri'r telerau, mae angen ymchwilio ymhellach cyn y gellir cymryd camau);
- b) yn ymwneud â materion neu heriau o fewn eich telerau gwasanaeth a/neu bolisïau cysylltiedig (e.e. fersiynau newydd o niwed y tu allan i gwmpas polisïau cymedroli mewnol, nid yw darn unigol o gynnwys yn destun pryder ond ar raddfa fwy (ond nid yw'n torri polisïau);
- c) yn ymwneud â blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd (e.e. rhyddid mynegiant, pryderon ynghylch budd y cyhoedd);
- d) yn rhai fyddai'n cael eu deall gan ddefnyddiwr sydd wedi darllen y telerau gwasanaeth a pham neu pam ddim, (e.e. mae'r telerau gwasanaeth yn nodi'r eithriadau dros beidio â thynnu cynnwys niweidiol (e.e. cynnwys newyddion), neu lle nad oes tryloywder i osgoi grymuso gweithredwyr gwael); ac
- e) unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

**Cwestiwn 12:** Pa systemau awtomatig sydd gennych ar waith i orfodi darpariaethau telerau gwasanaeth ynghylch tynnu neu gyfyngu mynediad at gynnwys neu atal neu wahardd cyfrifon?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- a) addasrwydd/effeithiolrwydd systemau awtomatig i nodi cynnwys neu gyfrifon sy'n debygol o dorri gwahanol ddarpariaethau yn eich telerau gwasanaeth, gan gynnwys y ffactorau sy'n effeithio'n sylweddol ar addasrwydd/effeithiolrwydd (e.e. iaith y cynnwys, math o gynnwys) gan gynnwys:
  - i) addasrwydd/effeithiolrwydd systemau awtomatig i dynnu cynnwys i lawr, defnyddio cyfyngiadau mynediad neu wahardd cyfrifon mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau neu ddarpariaethau penodol o fewn eich telerau gwasanaeth heb gymorth pellach gan gymedroli dynol;
  - ii) sut rydych chi'n defnyddio eich systemau argymell i gyfyngu ar fynediad at gynnwys penodol, a sut rydych chi'n mesur effeithiolrwydd a chanlyniadau anfwriadol defnyddio'r system argymell fel hyn;
  - iii) a yw systemau cymedroli awtomatig yn amrywio yn ôl y math o gynnwys (e.e. sain, fideo, testun) neu'r math o dorri (darpariaethau yn eich telerau gwasanaeth) ac unrhyw wybodaeth berthnasol am gostau'r gwahanol systemau hyn;

- iv) sut mae data'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu, hyfforddi, profi neu weithredu systemau cymedroli cynnwys ar gyfer gwahanol ddarpariaethau yn eich telerau gwasanaeth;
  - v) sut mae perfformiad/effeithiolrwydd/cywirdeb systemau awtomataidd yn cael eu hasesu a sut mae gwelliannau'n cael eu gwneud wedyn, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau neu wahaniaethau perthnasol ar gyfer gwahanol ddarpariaethau o fewn y telerau gwasanaeth (e.e., lefel goddefgarwch ar gyfer canlyniadau negatiffug a phositiffug rhwng gwahanol ddarpariaethau);
  - vi) sut a phryd y caiff systemau awtomataidd eu diweddaru, a'r sbardun ar gyfer hyn (e.e. mewn ymateb i newid ymddygiad defnyddwyr neu niwed sy'n dod i'r amlwg); a
  - vii) pa fesurau diogelu a ddefnyddir i liniaru rhagfarnau neu effeithiau andwyol cymedroli cynnwys awtomataidd (e.e. ar breifatrwydd a/neu ryddid mynegiant), ac unrhyw ystyriaethau neu wahaniaethau perthnasol ar gyfer gwahanol ddarpariaethau o fewn y telerau gwasanaeth;
- b) ystod ac ansawdd darparwyr systemau cymedroli cynnwys trydydd parti sydd ar gael yn y DU, yn enwedig ar gyfer gwahanol ddarpariaethau yn eich telerau gwasanaeth;
  - c) y broses a'r costau sy'n gysylltiedig ag ehangu'r defnydd o systemau cymedroli awtomatig presennol ar gyfer darpariaethau ychwanegol yn eich telerau gwasanaeth, ac unrhyw rwystrau neu heriau perthnasol wrth ddefnyddio'r systemau cymedroli awtomatig hyn neu ehangu neu uwchraddio'r systemau hyn i gynnwys darpariaethau newydd neu ychwanegol; ac
  - d) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 13:** Sut ydych chi'n defnyddio cymedrolwyr dynol i orfodi darpariaethau telerau gwasanaeth ynghylch tynnu neu gyfyngu mynediad at gynnwys neu atal neu wahardd cyfrifon?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- a) sut rydych chi'n pennu gofynion adnoddau eich gwasanaethau mewn perthynas â chymedroli dynol, a'r ffactorau (neu'r ffactorau allweddol) sy'n effeithio ar y gofynion hyn (e.e., cynnydd mewn cynnwys neu ddefnyddwyr, yr ystod neu'r mathau o gynnwys a waherddir yn eich telerau gwasanaeth neu ddatblygiadau technolegol yn eich system awtomataidd) gan gynnwys;
  - i) pa ieithoedd sy'n cael eu cwmpasu gan eich tîm cymedroli a sut rydych chi'n penderfynu pa ieithoedd i'w cwmpasu;
  - ii) a yw cymedrolwyr yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth neu'n cael eu hallanoli, neu a ydynt yn wirfoddolwyr/defnyddwyr ac unrhyw wahaniaethau o ran sut mae darpariaethau gwahanol o fewn y telerau gwasanaeth yn cael eu cymedroli;
  - iii) a yw cymedrolwyr yn cael eu harchwilio a sut, ac unrhyw ystyriaeth berthnasol o ran sut mae cymedrolwyr yn cael eu neilltuo i wahanol rolau sy'n ymwneud â gwahanol ddarpariaethau yn y telerau gwasanaeth;
  - iv) y math o ddarpariaeth (e.e. ar benwythnosau neu dros nos, amser y DU) y mae cymedrolwyr yn ei darparu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol ar gyfer gwahanol ddarpariaethau o fewn y telerau gwasanaeth;
- b) y broses a'r costau sy'n gysylltiedig ag ymestyn y defnydd o gymedroli dynol ar gyfer darpariaethau newydd/ychwanegol yn eich telerau gwasanaeth, ac unrhyw rwystrau neu heriau perthnasol i ychwanegu darpariaethau newydd/ychwanegol yn eich telerau gwasanaeth mewn perthynas â'ch adnoddau cymedroli dynol; ac

- c) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 14:** Pa hyfforddiant a chymorth sy'n cael eu darparu neu y dylid eu darparu i gymedrolwyr, a beth yw'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r hyfforddiant a'r cymorth hwn?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- a) a yw rhai cymedrolwyr yn arbenigo mewn rhai mathau o niwed neu ddeunydd pwnc sy'n ymwneud â gwahanol ddarpariaethau yn y telerau gwasanaeth;
- b) sut y gall, y dylai ac y mae gwasanaethau'n asesu cywirdeb a chysondeb timau cymedroli dynol;
- c) effaith cymorth iechyd meddwl neu lesiant i gymedrolwyr ar effeithiolrwydd cymedroli cynnwys (gan gynnwys effeithiau trosiant mewn timau cymedroli);
- d) a yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu a/neu ei ddiweddarau ai peidio, (gan gynnwys ar gyfer niwed sy'n dod i'r amlwg), ac amllder y diweddariadau hyn;
- e) costau creu deunyddiau hyfforddi a systemau cefnogi, ac yna costau diweddaru neu ehangu'r deunyddiau a'r systemau hyn (pan fo hynny'n berthnasol/ofynnol);
- f) sut y darperir hyfforddiant, arweiniad a/neu unrhyw ddeunyddiau a/neu systemau cefnogi perthnasol i gymedrolwyr gan gynnwys i ba gymedrolwyr y rhoddir darpariaeth (mewnol, contract, gwirfoddolwr ac ati); ac
- g) unrhyw wybodaeth arall.

**Cwestiwn 15:** Sut mae cymedrolwyr dynol a systemau awtomatig yn gweithio gyda'i gilydd, a beth yw eu graddfa gymharol mewn perthynas â'i gilydd o ran sut rydych chi'n sicrhau bod eich telerau gwasanaeth yn cael eu gorfodi?

Yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn, dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- a) sut a phryd y defnyddir systemau awtomataidd neu gymedrolwyr dynol yn y broses gymedroli;
- b) costau gwahanol systemau neu brosesau a defnyddio cyfuniadau gwahanol o'r systemau a'r prosesau hyn. Yn absenoldeb costau penodol, rhowch syniad o sbardunau cost (e.e. lleoliad cymedrolwyr) a ffigurau perthnasol eraill (e.e. nifer y cymedrolwyr a gyflogir, faint o eitemau mae'r gwasanaeth yn eu cymedroli bob dydd);
- c) sut mae allbynnau cymedrolwyr dynol, neu benderfyniadau apêl yn cael eu defnyddio i ddiweddarau'r systemau awtomataidd, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru rhagfarn;
- d) a oes unrhyw wahaniaethau neu ystyriaethau perthnasol ar gyfer costau neu brosesau sicrhau ansawdd ar gyfer cymedroli gwahanol ddarpariaethau o fewn y telerau gwasanaeth; ac
- e) unrhyw wybodaeth arall.

## 4. Cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol, a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd

Mae'r dyletswyddau hyn yn gosod gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i ddiogelu **cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd**.<sup>32</sup>

Yn benodol, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 beidio â chymryd camau mewn perthynas ag unrhyw **gynnwys cyhoeddwr newyddion**, neu ddefnyddiwr sy'n gyhoeddwr newyddion cydnabyddedig, cyn rhoi gwybod i'r cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig dan sylw. Bydd Ofcom yn cyhoeddi canllawiau ar y dyletswydd hon i helpu i gydymffurfio.

Ar gyfer **cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd**, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur i sicrhau bod pwysigrwydd mynegiant rhydd yo'r cynnwys hwn yn cael ei ystyried wrth gymedrolir cynnwys hwn. Rhaid i ddarparwyr gynnwys darpariaethau yn y telerau gwasanaeth sy'n nodi'r systemau a'r prosesau hyn, a rhaid iddynt fod yn glir, yn hygyrch ac yn cael eu defnyddio'n gyson. Rhaid i ddarparwyr hefyd gael gweithdrefn gwyno benodol a chyflym yn ei lle mewn perthynas â chynnwys newyddiadurol. Bydd Ofcom yn cynhyrchu codau ymarfer ar y dyletswyddau hyn.

### Dyletswyddau yn y Ddeddf

#### Cynnwys Cyhoeddwr Newyddion

- 4.1 Diffinnir **cynnwys cyhoeddwr newyddion** fel cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol ar wasanaeth gan "gyhoeddwr newyddion cydnabyddedig" neu sy'n atgynhyrchiad, recordiad neu ddolen i erthygl neu eitem a gyhoeddwyd neu a ddarllledwyd yn wreiddiol gan gyhoeddwr newyddion cydnabyddedig.<sup>33</sup> Diffinnir **cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig**<sup>34</sup> fel y BBC, S4C, deiliad trwydded ddarlledu Ofcom sy'n cyhoeddi deunydd sy'n gysylltiedig â

<sup>32</sup> Mae'r rhain yn ychwanegol at y dyletswyddau a roddir ar bob darparwr gwasanaeth yn ymwneud â rhyddid mynegiant a phreifatrwydd. Mae'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr pob gwasanaeth o fewn y cwmpas roi sylw penodol i bwysigrwydd diogelu hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd wrth benderfynu ar fesurau a pholisïau diogelwch a'u rhoi ar waith (adrannau 22 a 33 y Ddeddf).

<sup>33</sup> Adran 55(8) i (10) y Ddeddf.

<sup>34</sup> Mae sefydliad gwaharddedig dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 (neu endid sydd â'r nod o gefnogi sefydliad gwaharddedig) neu endid a gosbwyd dan Ddeddf Sancsiynau a Gwyngalchu Arian 2018 wedi'i eithrio rhag bod yn gyhoeddwr newyddion cydnabyddedig. Gweler adrannau 56(3) a (4) y Ddeddf.



newyddion mewn cysylltiad â'r gweithgareddau darlledu a awdurdodir dan y drwydded neu endid sy'n bodloni nifer o feini prawf penodol.<sup>35</sup>

- 4.2 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 **beidio â chymryd camau<sup>36</sup> mewn perthynas ag unrhyw gynnwys cyhoeddwr newyddion, neu ddefnyddiwr sy'n gyhoeddwr newyddion cydnabyddedig, cyn rhoi gwybod i'r cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig dan sylw.**<sup>37</sup> Rhaid i'r hysbysiad hwn **bennu'r camau arfaethedig, rhoi rhesymau drwy gyfeirio at ddarpariaethau perthnasol** yn y telerau gwasanaeth a rhoi **cyfnod rhesymol** i'r cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig **gyflwyno sylwadau**. Os yw'r cynnwys dan sylw hefyd yn gynnwys newyddiadurol (gweler isod), rhaid i'r darparwr gwasanaeth hefyd **egluro sut y bu iddo roi ystyriaeth i bwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys newyddiadurol**. Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth **hysbysu'r cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig o'i benderfyniad a'r rhesymau drosto**, gan fynd i'r afael ag unrhyw sylwadau a wnaed.
- 4.3 Os yw'r darparwr gwasanaeth yn credu'n rhesymol y byddai'n wynebu atebolrwydd troseddol neu sifil am beidio â dileu'r cynnwys hwn mewn perthynas â chynnwys y cyhoeddwr newyddion neu os yw'r cynnwys yn gyfystyr â thramgwydd perthnasol, gall gymryd camau yn gyntaf ac yna rhoi gwybod yn gyflym i'r cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig, gan nodi cyfnod rhesymol pryd y gall y cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig ofyn am i'r camau gael eu gwrthdroi. Os gwneir cais o'r fath, rhaid i'r darparwr gwasanaeth **ystyried y cais ac a ddylid bod wedi cymryd y camau uchod**; os felly, rhaid iddo **wrthdroi'r camau'n gyflym a hysbysu'r cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig o'i benderfyniad a'r rhesymau drosto**. Nid oes rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn os yw cyhoeddwr newyddion cydnabyddedig wedi cael ei wahardd rhag defnyddio gwasanaeth a bod y gwaharddiad yn parhau mewn grym.
- 4.4 Mae cynnwys cyhoeddwr newyddion wedi'i eithrio o'r dyletswyddau diogelwch a osodir ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, sy'n golygu nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaeth dan y Ddeddf i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â chynnwys cyhoeddwr newyddion o dan y dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon ac amddiffyn plant.

## Cynnwys Newyddiadurol

- 4.5 Diffinnir **cynnwys newyddiadurol** fel cynnwys cyhoeddwr newyddion neu gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n cael ei reoleiddio ac sy'n cael ei gynhyrchu at ddibenion newyddiaduraeth ac sy'n gysylltiedig â'r DU.<sup>38</sup> Mae'r cynnwys yn gysylltiedig â'r DU os yw defnyddwyr y DU yn ffurfio un o'r marchnadoedd targed ar gyfer y cynnwys (neu'r unig

---

<sup>35</sup> Er enghraifft, ei brif bwrpas yw cyhoeddi deunydd sy'n gysylltiedig â newyddion sy'n cael ei greu gan wahanol bobl ac sy'n destun rheolaeth olygyddol; mae'n cyhoeddi deunydd o'r fath wrth gynnal busnes (p'un a yw'n cael ei gynnal gyda golwg ar elw ai peidio); mae'n ddarostyngedig i god safonau; mae ganddo bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion a'u datrys; mae ganddo swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad busnes arall yn y Deyrnas Unedig. Gweler adran 56(2) y Ddeddf.

<sup>36</sup> Mae cymryd camau mewn perthynas â chynnwys yn golygu tynnu cynnwys i lawr, cyfyngu ar fynediad defnyddwyr at gynnwys neu ychwanegu labeli rhybudd at gynnwys, ac eithrio labeli rhybudd y deuir ar eu traws fel arfer gan ddefnyddwyr sy'n blant yn unig, ac unrhyw gamau eraill mewn perthynas â chynnwys sy'n destun telerau gwasanaeth perthnasol. Gweler adrannau 18(13) a (14) y Ddeddf.

<sup>37</sup> Adran 18 y Ddeddf. Gweler adran 18(9) am amgylchiadau pan na fydd darparwr yn cael ei ystyried yn cymryd camau mewn perthynas â chynnwys cyhoeddwr newyddion.

<sup>38</sup> Adran 19(10) y Ddeddf.

farchnad darged) neu os yw'r cynnwys o ddiddordeb neu'n debygol o fod o ddiddordeb i nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y DU.

- 4.6 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 **weithredu gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur**<sup>39</sup> sydd wedi'u llunio i sicrhau bod pwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys newyddiadurol yn cael ei ystyried wrth nodi cynnwys o'r fath, gwneud penderfyniadau ynghylch sut i drin cynnwys o'r fath ac a ddylid cymryd camau<sup>40</sup> yn erbyn defnyddiwr sy'n cynhyrchu, yn llwytho i fyny neu'n rhannu cynnwys o'r fath.<sup>41</sup>
- 4.7 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 sicrhau bod **gweithdrefn gwyno benodol a chyflym** ar gael mewn perthynas â chynnwys newyddiadurol.<sup>42</sup> Os caiff cwyn ei chadarnhau, rhaid i'r cynnwys gael ei **adfer yn gyflym ar y gwasanaeth neu wrthdroi'n gyflym y camau yn erbyn y defnyddiwr**.
- 4.8 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 hefyd **gynnwys darpariaethau yn y telerau gwasanaeth** sy'n nodi drwy ba ddulliau y mae cynnwys sy'n ymddangos ar y gwasanaeth i'w adnabod fel cynnwys newyddiadurol; y polisiau a'r prosesau ar gyfer ystyried pwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys newyddiadurol; a'r polisiau a'r prosesau ar gyfer delio â chwynion mewn perthynas â chynnwys sy'n gynnwys newyddiadurol, neu sy'n cael ei ystyried yn gynnwys newyddiadurol. Rhaid i'r rhain fod yn **glir ac yn hygyrch, a chael eu defnyddio'n gyson**.

## Cynnwys o Bwysigrwydd Democrataidd

- 4.9 Mae **cynnwys o bwysigrwydd democrataidd** yn cael ei ddiffinio fel cynnwys cyhoeddwr newyddion neu gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr sy'n cael ei reoleiddio, sydd, neu y mae'n ymddangos ei fod wedi'i fwriadu'n benodol i gyfrannu at drafodaeth wleidyddol ddemocrataidd yn y DU neu ran neu ardal o'r DU.<sup>43</sup>
- 4.10 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 **weithredu gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur**<sup>44</sup> sydd wedi'u llunio i sicrhau bod pwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys newyddiadurol yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch (a) sut i drin cynnwys o'r fath, (yn enwedig penderfyniadau ynghylch a ddylid ei dynnu i lawr neu gyfyngu ar fynediad defnyddwyr ato) a (b) a ddylid cymryd camau<sup>45</sup> yn erbyn defnyddiwr sy'n cynhyrchu, yn llwytho i fyny neu'n rhannu cynnwys o'r fath.<sup>46</sup> Rhaid i'r systemau a'r

---

<sup>39</sup> Wrth benderfynu beth sy'n gymesur, mae maint a chapasiti darparwr gwasanaeth, yn benodol, yn berthnasol. Gweler adran 19(9) y Ddeddf.

<sup>40</sup> Mae cymryd camau yn erbyn defnyddiwr yn golygu rhoi rhybudd i ddefnyddiwr, atal neu wahardd defnyddiwr rhag defnyddio gwasanaeth, neu gyfyngu mewn unrhyw ffordd ar allu defnyddiwr i ddefnyddio gwasanaeth. Gweler adran 19(12) y Ddeddf.

<sup>41</sup> Adran 19 y Ddeddf.

<sup>42</sup> Nid yw'n ofynnol i wasanaethau Categori 1 sicrhau bod gweithdrefn gwyno benodol a chyflym ar gael i gyhoeddwr newyddion cydnabyddedig mewn perthynas â phenderfyniad os yw'r darparwr wedi cymryd y camau a nodir yn adran 18(3) y Ddeddf mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw.

<sup>43</sup> Adran 17(7) y Ddeddf.

<sup>44</sup> Wrth benderfynu beth sy'n gymesur, mae maint a chapasiti darparwr gwasanaeth, yn benodol, yn berthnasol. Gweler adran 17(6) y Ddeddf.

<sup>45</sup> Mae cymryd camau yn erbyn defnyddiwr yn golygu rhoi rhybudd i ddefnyddiwr, atal neu wahardd defnyddiwr rhag defnyddio gwasanaeth, neu gyfyngu mewn unrhyw ffordd ar allu defnyddiwr i ddefnyddio gwasanaeth. Gweler adran 17(8) y Ddeddf.

<sup>46</sup> Adran 17 y Ddeddf.

prosesau hyn **gael eu cymhwyso yn yr un modd i amrywiaeth eang o safbwyntiau gwleidyddol.**

- 4.11 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 gynnwys **darpariaethau yn y telerau gwasanaeth** sy'n pennu'r polisiau a'r prosesau a ddefnyddir i ystyried pwysigrwydd mynegiant rhydd o gynnwys o bwysigrwydd democrataidd. Rhaid i'r rhain fod yn **glir ac yn hygyrch, a chael eu defnyddio'n gyson.**
- 4.12 Er nad yw'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 gael proses gwyno benodol a chyflym ar gyfer cynnwys o bwysigrwydd democrataidd, mae dyletswyddau'r gweithdrefnau cwyno yn berthnasol i'r math hwn o gynnwys.<sup>47</sup>

## Asesiadau Effaith

- 4.13 Mae gan ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 ddyletswyddau ychwanegol hefyd i gynnal asesiadau amrywiol o effaith mesurau a pholisïau diogelwch ar hawliau defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd. Rhaid i'r rhain gynnwys **asesiad o effaith mesurau a pholisïau diogelwch** ar argaeledd a thriniaeth cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys newyddiadurol mewn perthynas â'r gwasanaeth.
- 4.14 Rhaid i ddarparwyr **gyhoeddi'r asesiadau effaith hyn yn ogystal â'r camau cadarnhaol maen nhw wedi'u cymryd mewn ymateb a sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu diweddarau.**<sup>48</sup>

## Gweithredu'r Ddeddf

---

- 4.15 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynhyrchu un neu fwy o godau ymarfer sy'n disgrifio mesurau sy'n cael eu hargymell at ddibenion cydymffurfio â'r dyletswyddau i ddiogelu cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd.<sup>49</sup> Rhaid i ni hefyd gynhyrchu canllawiau ar y dyletswyddau i ddiogelu cynnwys cyhoeddwr newyddion.<sup>50</sup>

## Cwestiynau i randdeiliaid

---

- 4.16 Yn yr adran hon, mae gennym ddiddordeb mewn deall mwy am y canlynol:
- nodi, dosbarthu a chymedroli'r cynnwys uchod ar wasanaethau o fewn y cwmpas;
  - effeithiolrwydd a goblygiadau cost y prosesau hyn; a
  - mesurau a ddefnyddir i atal camddefnyddio systemau i ganfod a chategoreiddio'r math hwn o gynnwys ac yn enwedig, y defnydd presennol o brosesau cwyno ac apelio.
- 4.17 Mae'r cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw gynnwys a allai fod o fewn cwmpas newyddiaduraeth, cyhoeddwr newyddion neu gynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn unol â'r Ddeddf, hyd yn oed os yw wedi cael ei ddiffinio mewn ffordd wahanol gan ddarparwr y gwasanaeth ar-lein yn eu telerau gwasanaeth.

---

<sup>47</sup> Adran 21 y Ddeddf.

<sup>48</sup> Adran 22(4)-(7) y Ddeddf.

<sup>49</sup> Adran 41 y Ddeddf.

<sup>50</sup> Adran 52(2) y Ddeddf.

- 4.18 **Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau isod. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol ym marn rhanddeiliaid.**

## Adnabod, diffinio, a chategoreiddio cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 16:** Pa ddulliau y dylai darparwyr gwasanaeth eu defnyddio i adnabod a diffinio cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd, yn enwedig ar raddfa fawr?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) sut y gellir disgrifio cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn y telerau gwasanaeth er mwyn gallu disgwyl yn rhesymol i ddefnyddwyr ddeall pa gynnwys sy'n perthyn i'r categorïau hyn.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 17:** Pa ddulliau, os o gwbl, sydd ar waith ar gyfer adnabod, diffinio neu gategoreiddio cynnwys fel cynnwys newyddiadurol, cynnwys o bwysigrwydd democrataidd neu gynnwys cyhoeddwr newyddion ar eich gwasanaeth?

Yn benodol, rhowch unrhyw dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd unrhyw ddulliau presennol.

## Cymedroli cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 18:** Pa ystyriaethau sy'n cael eu hystyried wrth gymedroli cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd?

Yn benodol, esboniwch:

- a) ar ôl ei nodi, sut mae cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn cael ei weithredu a pha fath o gamau sy'n cael eu cymryd; a sut mae hynny'n wahanol i gymedroli mathau eraill o gynnwys;
- b) y ffactorau sy'n cael eu hystyried neu y dylid eu hystyried wrth gymryd camau (e.e: israddio/dileu/atal/gwahardd neu arall) yng nghyswllt y cynnwys hwn;
- c) cyfran yr holl gynnwys newyddiadurol, cynnwys o bwysigrwydd democrataidd a chynnwys cyhoeddwr newyddion y cymerir camau arno gennych chi sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau algorithmig;
- d) cyfran yr holl gynnwys newyddiadurol, cynnwys o bwysigrwydd democrataidd a chynnwys cyhoeddwr newyddion y cymerir camau arno gennych chi sy'n cael ei adolygu gan gymedrolwyr dynol ac ar ba sail y mae cynnwys yn cael ei uwchgyfeirio i gael ei adolygu gan gymedrolwyr dynol; a
- e) unrhyw fewnwelediad i gostau cymedroli cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd, gan gynnwys costau sefydlu a chostau parhaus o ran amser gweithwyr a chostau perthnasol eraill.

## Prosesau cwyno ac apelio ar gyfer cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 19:** Pa gŵyn, gwrth-hysbysiad neu brosesau apelio eraill ddylai fod ar waith i ddefnyddwyr herio unrhyw gamau a gymerir gan ddarparwyr gwasanaeth ynghylch cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) enghreifftiau o ddulliau gwneud iawn effeithiol a fyddai, yn eich barn chi, yn fwyaf addas ar gyfer y mathau hyn o gynnwys; a
- b) sesiynau briffio, ymchwiliadau, adroddiadau tryloywder, ymchwiliadau i'r cyfryngau a phapurau ymchwil sy'n darparu mwy o dystiolaeth.

**Cwestiwn 20:** Pa gynlluniau y gallai darparwyr gwasanaeth eu defnyddio i greu a chynyddu ymwybyddiaeth o'r broses i ddefnyddwyr gwyno a/neu apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch cynnwys a lleihau camddefnydd ohono?

Yn benodol, darparwch dystiolaeth o:

- a) unrhyw effeithiau hysbys o dynnu cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol neu gynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn ormodol neu mewn camgymeriad; a
- b) sesiynau briffio, ymchwiliadau, adroddiadau tryloywder, ymchwiliadau i'r cyfryngau a phapurau ymchwil sy'n ymwneud â chamddefnyddio darpariaethau amddiffyn llais.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 21:** Beth yw'r prosesau o ran cwynion, gwrth-hysbysiadau neu apeliadau eraill presennol i ddefnyddwyr herio unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd ynghylch cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd ar eich gwasanaeth?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) unrhyw gynlluniau a wnaed i greu a chynyddu ymwybyddiaeth o'r broses i ddefnyddwyr gwyno a/neu apelio yn erbyn penderfyniadau i ddileu cynnwys; ac
- b) unrhyw fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd i atal camddefnydd unigol neu systematig o unrhyw amddiffyniadau ar gyfer cynnwys cyhoeddwr newyddion, cynnwys newyddiadurol neu gynnwys o bwysigrwydd democrataidd.

## Gwybodaeth arall ar gyfer cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 22:** Ydych chi'n cynnal unrhyw asesiadau effaith mewnol i ddeall goblygiadau rhyddid mynegiant a phreifatrwydd polisiâu presennol ynghylch cynnwys newyddiadurol, cynnwys cyhoeddwr newyddion a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd?

Yn benodol:

- a) esboniwch pa elfennau o gynllun neu weithrediad eich gwasanaeth y maen nhw'n ymwneud a pha ffactorau maen nhw'n eu hystyried; a
- b) darparu sesiynau briffio, ymchwiliadau, adroddiadau tryloywder, ymchwiliadau i'r cyfryngau a phapurau ymchwil perthnasol.

**Cwestiwn 23:** Pa fesurau, os o gwbl, sydd ar waith i sicrhau bod diogelu cynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn berthnasol yn yr un modd i amrywiaeth eang o safbwyntiau gwleidyddol?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) a oes unrhyw fesurau diogelu ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar waith yn ystod etholiadau lleol neu genedlaethol.

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 24:** Pa fesurau, os o gwbl, y gall darparwyr gwasanaethau ar-lein eu rhoi ar waith i sicrhau bod diogelu cynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn berthnasol yn yr un modd i amrywiaeth eang o safbwyntiau gwleidyddol?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) a oes unrhyw fesurau diogelu ychwanegol y gellid eu rhoi ar waith yn ystod etholiadau lleol neu genedlaethol.

# 5. Dyletswyddau grymuso defnyddwyr

Mae **dyletswyddau grymuso defnyddwyr** yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 gynnig nodweddion i ddefnyddwyr sy'n oedolion y gellir eu defnyddio i leihau eu cysylltiad â mathau penodol o gynnwys cyfreithiol a hidlo cynnwys gan ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu. Rhaid sicrhau ei bod hi'n hawdd cael mynediad at yr adnoddau hyn. Bydd Ofcom yn cynhyrchu cod ymarfer, gan ddisgrifio'r mesurau a argymhellir at ddibenion cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, yn ogystal â chanllawiau sy'n cynnwys enghreifftiau o'r cynnwys y mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol iddo. Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 hefyd gynnal asesiad cynnwys i fesur amlder y cynnwys hwn ar eu gwasanaeth, ymysg pethau eraill. Bydd Ofcom yn cynhyrchu canllawiau at ddibenion y dyletswyddau asesu.

## Dyletswyddau yn y Ddeddf

- 5.1 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i ddarparu nodweddion sy'n grymuso defnyddwyr sy'n oedolion i gael mwy o reolaeth dros fathau penodol o gynnwys maen nhw'n dod ar ei draws ar-lein. At ddibenion y cais hwn am dystiolaeth, rydym yn cyfeirio at y cynnwys hwn fel **cynnwys perthnasol**, sef cynnwys cyfreithiol sy'n:
- a) annog, yn hyrwyddo neu'n darparu cyfarwyddyd ar gyfer:
    - i) hunanladdiad neu weithred o hunan-niweidio bwriadol; neu
    - ii) anhwylder bwyta neu ymddygiad sy'n gysylltiedig ag anhwylder bwyta;<sup>51</sup>
  - b) yn gamdriniol ac yn targedu hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu ailbennu rhywedd;<sup>52</sup> neu
  - c) yn ysgogi casineb yn erbyn pobl o hil, crefydd, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol penodol, pobl sydd ag anabledd, neu bobl sydd â nodwedd ailbennu rhywedd.<sup>53</sup>
- 5.2 Mae'r Ddeddf yn disgrifio'r categorïau hyn o gynnwys yn yr un ffordd â chategoriâu penodol o gynnwys â blaenoriaeth sylfaenol neu gynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant.<sup>54</sup>
- 5.3 Bydd gan ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 **ddyletswyddau asesu** i:
- a) **gynnal asesiad** at ddibenion y dyletswyddau grymuso defnyddwyr<sup>55</sup> (gan gynnwys asesiad o amlder y **cynnwys perthnasol** ar eu gwasanaeth)<sup>56</sup> a **sicrhau bod yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddar**<sup>57</sup>; a

<sup>51</sup> Adran 16(3) y Ddeddf.

<sup>52</sup> Adran 16(4) y Ddeddf.

<sup>53</sup> Adran 16(5) y Ddeddf.

<sup>54</sup> Adrannau 61(3) a (4) a 62(2) a (3) y Ddeddf.

<sup>55</sup> Adran 14(2) y Ddeddf.

<sup>56</sup> Adran 14(5) y Ddeddf.

<sup>57</sup> Adran 14(3) a (4) y Ddeddf.

- b) **cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw asesiad o'r fath**, gan gynnwys manylion am sut y cynhaliwyd yr asesiad a'i ganfyddiadau,<sup>58</sup> a chyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud neu ddiwygio cofnod o'r fath, **rhoi copi o'r cofnod i Ofcom.**<sup>59</sup>

5.4 Dan y dyletswyddau grymuso defnyddwyr, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 hefyd:

- a) i'r graddau y mae'n gymesur gwneud hynny, **cynnig nodweddion rheoli sy'n hawdd eu defnyddio** i'r holl ddefnyddwyr sy'n oedolion ac, os cânt eu defnyddio, eu bod yn golygu bod y gwasanaeth yn defnyddio systemau neu brosesau sydd wedi'u cynllunio i wneud y canlynol yn effeithiol:
- i) **lleihau'r tebygolrwydd y bydd y defnyddiwr yn dod ar draws cynnwys perthnasol;** neu
  - ii) **tynnu sylw'r defnyddiwr at gynnwys perthnasol sydd ar y gwasanaeth;**<sup>60</sup>
- b) defnyddio systemau neu brosesau sy'n ceisio sicrhau bod yr holl oedolion cofrestredig sy'n ddefnyddwyr yn cael cynnig cyn gynted â phosibl i ddangos i'r darparwr eu bod yn dymuno troi'r nodweddion hyn ymlaen neu i ffwrdd (p'un ai ydynt ymlaen neu i ffwrdd yn ddiodyn);<sup>61</sup>
- c) nodi yn y telerau gwasanaeth pa nodweddion rheoli a gynigir a sut y gall defnyddwyr fanteisio arnynt;<sup>62</sup>
- d) cynnwys crynodeb o ganfyddiadau eu hasesiad diweddaraf yn y telerau gwasanaeth;<sup>63</sup> a
- e) cynnig nodweddion i ddefnyddwyr sy'n oedolion a fydd, os cânt eu defnyddio, yn atal defnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu rhag rhyngweithio â chynnwys y defnyddwyr ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y defnyddiwr yn dod ar draws cynnwys gan ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu.<sup>64</sup>

## Gweithredu'r Ddeddf

---

5.5 Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu cod ymarfer<sup>65</sup> sy'n disgrifio mesurau sy'n cael eu hargymell er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau grymuso defnyddwyr, yn ogystal â chanllawiau ar y dyletswyddau asesu<sup>66</sup> a'r canllawiau sy'n cynnwys enghreifftiau o beth mae Ofcom yn credu sy'n **gynnwys perthnasol** neu **ddim yn berthnasol.**<sup>67</sup>

## Cwestiynau i randdeiliaid

---

5.6 Yn yr adran hon, at ddibenion y cod ymarfer grymuso defnyddwyr, mae gennym ddiddordeb mewn deall mwy am y canlynol:

- a) canfod, dosbarthu a chymedroli cynnwys perthnasol ar wasanaethau o fewn y cwmpas;  
a

---

<sup>58</sup> Adran 23(9) y Ddeddf.

<sup>59</sup> Adran 23(10) y Ddeddf.

<sup>60</sup> Adran 15(3) a (4) y Ddeddf.

<sup>61</sup> Adran 15(5) y Ddeddf.

<sup>62</sup> Adran 15(7) y Ddeddf.

<sup>63</sup> Adran 15(8) y Ddeddf.

<sup>64</sup> Adran 15(9) a (10) y Ddeddf.

<sup>65</sup> Adran 41(3) y Ddeddf.

<sup>66</sup> Adran 52(1) a (3)(a) y Ddeddf. <sup>67</sup> Adran 53(2) y Ddeddf.

<sup>67</sup> Adran 53(2) y Ddeddf.



- b) yr offer a'r nodweddion a gynigir ar hyn o bryd i rymuso defnyddwyr i leihau dod i gysylltiad â chynnwys perthnasol (neu gategoriâu eraill o gynnwys a ganiateir y gallai defnyddwyr ddymuno peidio â dod ar eu traws) a rhyngweithio rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr, gan gynnwys effeithiolrwydd, defnydd a chostau sy'n gysylltiedig â nhw.
- 5.7 Yn yr adran hon, at ddibenion y canllaw asesu, mae gennym ddiddordeb mewn deall mwy am y canlynol:
- a) amllder cynnwys perthnasol ar gyfer defnyddwyr sy'n oedolion ar draws gwasanaethau o fewn y cwmpas; a
- b) phrofiad defnyddwyr sy'n oedolion sydd â nodwedd warchoddedig wrth ddod ar draws cynnwys perthnasol, neu'r rheini y mae cynnwys o'r fath yn debygol o effeithio'n benodol arnynt.
- 5.8 Rydym wedi gofyn yn ein [cais blaenorol am dystiolaeth ar gyfer amddiffyn plant](#) ynghylch pa mor gyffredin yw **cynnwys perthnasol**, ond yma mae gennym ddiddordeb mewn sut gallai effaith **cynnwys perthnasol** fod yn wahanol i oedolion a phlant.
- 5.9 **Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau isod.<sup>68</sup> Rydym hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol ym marn rhanddeiliaid.**

## Canfod a chymedroli cynnwys perthnasol

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 25:** Pa brosesau ydych chi'n eu defnyddio i ganfod **cynnwys perthnasol** a sut ydych chi'n ei safoni?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) pa systemau rydych chi'n eu defnyddio i'w ganfod;
- b) yn ogystal â'r uchod, a oes unrhyw nodweddion pwysig rydych chi'n eu hystyried wrth wahaniaethu rhwng cynnwys, e.e. nodweddion a allai nodi bod darn o gynnwys yn ddeunydd hyrwyddo hunanladdiad o'i gymharu â chynnwys sydd wedi'i fwriadu i roi cefnogaeth i ddefnyddwyr sydd mewn perygl o ladd eu hunain;
- c) lle gwahaniaethir rhyngddynt, i ba raddau y gweithredir ar gynnwys yn awtomatig, drwy gymedroli dynol, drwy adroddiadau gan ddefnyddwyr, dulliau eraill neu gyfuniad o ddulliau;
- d) unrhyw fewnwelediad i gostau'r prosesau hyn, gan gynnwys costau sefydlu a chostau parhaus, o ran amser gweithwyr ac unrhyw gostau perthnasol eraill;
- e) a yw cynnwys perthnasol yn cael ei ganiatáu neu ei wahardd ar eich gwasanaeth;
- f) a ydych chi'n mesur amllder y defnyddwyr sy'n dod ar draws cynnwys o'r fath, ac os ydych, a yw'r systemau hyn yn wahanol i'r rhai sy'n mesur mathau eraill o gynnwys, gan gynnwys cynnwys anghyfreithlon; ac
- g) os ydych chi'n cynnig gweithdrefnau cwyno ar wahân i ddefnyddwyr ar gyfer cynnwys cyfreithiol wedi'i safoni o'i gymharu â chynnwys anghyfreithlon, pa mor aml mae defnyddwyr yn rhoi gwybod am gynnwys drwy'r sianeli hyn, a pha gyfran o'r cynnwys sy'n cael ei dynnu ar ôl cael cwyn.

---

<sup>68</sup> Mae rhywfaint o orgyffwrdd â chynllun gwirfoddol Ofcom - [Egwyddorion Arfer Gorau ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio](#) – sy'n darparu gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, gemau, pornograffi, rhannu a chwilio o bob maint gyda chanllawiau ar sut mae delio ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar lwyfannau. Mae Ofcom yn disgwyl i lwyfannau ddefnyddio adnoddau effeithiol i rymuso defnyddwyr a'u helpu i ddarparu cyd-destun i'r cynnwys maen nhw'n ei weld.

- h) Os ydych chi wedi darparu gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i gwynion a chwestiynau adrodd yn Adran 3, dyletswyddau telerau gwasanaeth ychwanegol, gallwch groesgyfeirio at y rhain yma.

## Effaith cynnwys perthnasol

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 26:** Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth ynghylch a yw effaith **cynnwys perthnasol** yn wahanol i oedolion a phlant ar wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr?

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sesiynau briffio, ymchwiliadau, adroddiadau tryloywder, ymchwiliadau i'r cyfryngau a phapurau ymchwil sy'n darparu mwy o dystiolaeth.

## Profiad o fathau penodol o ddefnyddwyr

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 27:** Ydych chi'n gallu rhoi tystiolaeth ynghylch y mathau o ddefnyddwyr sy'n oedolion sy'n fwy tebygol o ddod ar draws **cynnwys perthnasol**, a'r mathau o ddefnyddwyr sy'n oedolion y mae cynnwys o'r fath yn fwy tebygol o effeithio arnynt?

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 28:** Sut ydych chi'n ystyried profiad defnyddwyr sydd â nodwedd warchoddedig, neu'r rheini yr ystyrir eu bod yn agored i niwed neu y mae mathau penodol o gynnwys yn debygol o effeithio'n benodol arnynt?

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- pa feini prawf rydych chi'n eu defnyddio i benderfynu a yw defnyddiwr yn agored i niwed neu'n rhywun y mae mathau penodol o gynnwys yn debygol o effeithio'n benodol arno, neu os nad ydych chi'n categoreiddio defnyddwyr fel rhai sy'n agored i niwed a pham;
- a yw eich gwasanaeth yn casglu unrhyw wybodaeth am ddefnyddwyr y gellid ei defnyddio i'w hadnabod fel rhai sydd â nodwedd warchoddedig, rhai sy'n agored i niwed neu'n rhai y mae mathau penodol o gynnwys yn debygol o effeithio'n benodol arnynt ac, os felly, pa wybodaeth rydych chi'n ei chasglu; ac
- a ydych chi'n cynnal unrhyw ymchwil i brofiad y defnyddwyr uchod ar eich gwasanaeth.

## Nodweddion a ddefnyddir i alluogi mwy o reolaeth dros gynnwys

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 29:** Pa nodweddion sy'n bodoli i alluogi defnyddwyr sy'n oedolion i gael mwy o reolaeth dros y math o gynnwys maen nhw'n dod ar ei draws?<sup>69</sup>

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- nodweddion a gynnigir i ddefnyddwyr i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod ar draws cynnwys nad ydynt yn dymuno ei weld;

---

<sup>69</sup> Mewn ymchwil ddiweddar gan Ofcom gwnaethom ystyried bod 'rheolaethau cynnwys' yn osodiadau personol a ddarperir gan gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos, Ofcom, 2023. [Llai na hanner y defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn cael rheolaethau cynnwys yn effeithiol.](#)

- b) nodweddion a gynigir i ddefnyddwyr i dynnu eu sylw at bresenoldeb categorïau cynnwys penodol;
- c) nodweddion a gynigir i ddefnyddwyr i'w galluogi i reoli sut maen nhw'n rhyngweithio â gwahanol fathau o ddefnyddwyr (e.e. rhai nad ydynt wedi'u dilysu);
- d) a yw nodweddion penodol yn cael eu gwerthfawrogi'n benodol neu'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig, neu ddefnyddwyr a fyddai'n debygol o deimlo effeithiau dod ar draws cynnwys perthnasol.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 30:** Sut ydych chi'n dylunio nodweddion i alluogi defnyddwyr sy'n oedolion i gael mwy o reolaeth dros y cynnwys maen nhw'n dod ar ei draws, pryd maen nhw'n cael eu cynnig i ddefnyddwyr, a beth yw'r effeithiau ehangach ar eich system wrth eu defnyddio? (At ddibenion ein sylfaen dystiolaeth, mae gennym ddiddordeb mewn nodweddion sy'n galluogi rheolaeth dros amrywiaeth o gynnwys, nid **cynnwys perthnasol** yn unig).

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- a) sut rydych chi'n mesur a pha dystiolaeth y gallwch ei darparu ynghylch effeithiolrwydd y nodweddion hyn o ran cyflawni eu nodau i atal oedolion rhag dod ar draws cynnwys nad ydynt eisiau ei weld;
- b) sut rydych chi'n mesur ymgysylltiad defnyddwyr â'r nodweddion hyn, ac unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu ynghylch hyn;
- c) sut rydych chi'n sicrhau bod y nodweddion hyn yn addas i bob oedolyn sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd a'u bod yn hawdd cael gafael arnynt, gan gynnwys ystyriaeth i ddefnyddwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig a/neu ddefnyddwyr agored i niwed;
- d) sut rydych yn penderfynu pryd i gynnig y nodweddion hyn i ddefnyddwyr, neu sut i gyflwyno'r defnydd o'r nodweddion hyn i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r agweddau canlynol:
  - i) sut rydych chi'n datblygu angen y defnyddiwr am y nodweddion hyn, a'r ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu eu datblygu;
  - ii) a yw'r nodweddion hyn ymlaen yn ddiodyn, ac o dan ba amgylchiadau;
  - iii) a yw'r nodweddion hyn yn cael eu personoli ar gyfer mathau penodol o ddefnyddwyr;
  - iv) pryd i gynnig y nodweddion hyn i ddefnyddwyr;
  - v) a ddylid atgoffa defnyddwyr am y nodweddion hyn, a phryd neu ba mor aml y dylid gwneud hynny - gall hyn olygu atgoffa defnyddwyr i wneud dewis ar y cychwyn, neu wirio a yw defnyddiwr eisiau diweddarau ei ddewis yn nes ymlaen (ac os felly, pa mor aml);
  - vi) ble mae defnyddwyr yn dysgu am y nodweddion hyn;
  - vii) sut i ddarparu gwybodaeth am y nodweddion hyn, gan gynnwys lefel y manylder a'r geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio cysyniadau cymhleth neu dechnegol;
  - viii) a oes gan ddefnyddwyr ddewis o reolyddion dros fathau penodol o gynnwys;
  - ix) sut rydych yn penderfynu a ydych am ailadrodd, disodli neu gadw nodweddion o'r fath; ac
  - x) unrhyw ffactorau eraill na chyfeiriwyd atynt eisoes uchod yr ydych yn eu hystyried wrth feddwl am nodweddion o'r fath; ac
  - xi) unrhyw fewnwelediad i gost y nodweddion hyn, gan gynnwys costau sefydlu a chostau parhaus (o ran amser gweithwyr ac unrhyw gostau perthnasol eraill) yn ogystal ag unrhyw effeithiau bwriadol ac anfwriadol ar y gwasanaeth yn fwy eang (e.e. ymarferoldeb technegol defnyddio offer hidlo, neu leihau swyddogaethau yn seiliedig ar statws dilysu).

## 6. Dyletswyddau dilysu manylion adnabod defnyddiwr

Mae'r dyletswyddau **dilysu manylion adnabod defnyddiwr** angen darparwyr gwasanaeth categori 1 i roi'r opsiwn i ddefnyddwyr sy'n oedolion yn y DU ddilysu pwy ydynt. Bydd Ofcom yn cynhyrchu canllawiau i helpu gwasanaethau i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

### Dyletswyddau yn y Ddeddf

- 6.1 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth categori 1 i roi'r opsiwn i ddefnyddwyr sy'n oedolion<sup>70</sup> yn y DU ddilysu pwy ydynt, lle nad oes camau dilysu manylion adnabod ar waith yn barod i gael mynediad at y gwasanaeth. Bydd defnyddwyr sy'n oedolion yn gallu rheoli eu cysylltiad â'r holl ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu (gan gynnwys defnyddwyr nad oes angen cynnig yr opsiwn iddynt ddilysu pwy ydynt yn unol â'r ddyletswydd hon) drwy offer grymuso defnyddwyr<sup>71</sup>, a nodir yn yr adran uchod.
- 6.2 Mae'r dyletswyddau dilysu manylion adnabod defnyddiwr yn mynnu bod gwasanaethau yn gwneud y canlynol:
- a) **cynnig yr opsiwn i bob oedolyn ddilysu pwy ydynt;**<sup>72</sup> ac
  - b) **esbonio sut mae'r broses ddilysu yn gweithio o fewn eu telerau gwasanaeth mewn darpariaethau clir a hygyrch.**<sup>73</sup>
- 6.3 Gall y broses ddilysu fod o unrhyw fath ac nid oes angen iddi fynnu bod dogfennau'n cael eu darparu.<sup>74</sup>

### Gweithredu'r Ddeddf

- 6.4 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau categori 1 er mwyn cyflawni'r dyletswyddau uchod, gan roi sylw penodol i ba mor ddymunol yw sicrhau bod camau dilysu yn debygol o fod ar gael i oedolion agored i niwed.<sup>75</sup>

### Cwestiynau i randdeiliaid

- 6.5 Yn yr adran hon, mae gennym ddiddordeb mewn deall mwy am y canlynol:

---

<sup>70</sup> Mae hyn yn golygu oedolyn yn y DU (a) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu (b) sy'n ceisio dechrau defnyddio'r gwasanaeth (er enghraifft drwy sefydlu cyfrif) (adran 64(7) y Ddeddf).

<sup>71</sup> At ddibenion y dyletswyddau grymuso defnyddwyr, y diffiniad o "ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu" yw defnyddiwr sy'n unigolyn, boed yn y DU neu'r tu allan iddi, nad yw wedi dilysu pwy ydyw i'r darparwr gwasanaeth (adran 16(7) y Ddeddf).

<sup>72</sup> Adran 64(1) y Ddeddf.

<sup>73</sup> Adran 64(3) y Ddeddf.

<sup>74</sup> Adran 64(2) y Ddeddf.

<sup>75</sup> Adran 65 y Ddeddf.

- a) yr amgylchiadau lle cynigir dilysu manylion adnabod ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, sut y gwneir hyn, a chost ac effeithiolrwydd y dulliau hyn; a’r
- b) goblygiadau ehangach sy’n gysylltiedig â dilysu manylion adnabod, gan gynnwys agweddau defnyddwyr tuag at gyfrifon wedi’u dilysu ac agweddau defnyddwyr tuag at weithredu’n eang (yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â’r profiad o ddilysu pwy yw defnyddwyr unigol sy’n oedolion).

**6.6 Rydym yn croesawu ymatebion i’r cwestiynau isod. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol ym marn rhanddeiliaid.**

## Amgylchiadau lle cynigir dilysu manylion adnabod defnyddiwr, a sut

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 31:** Pa fath o wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr<sup>76</sup> sy’n defnyddio camau dilysu manylion adnabod ar hyn o bryd, ac o dan ba amgylchiadau? Gan gynnwys:

- a) y ffyrdd y mae'r dulliau dilysu manylion adnabod hyn yn fuddiol, i'r defnyddiwr ac i'r gwasanaeth;
- b) pa ddogfennau sy’n angenrheidiol yn eich tyb chi ar gyfer gwahanol fathau, neu lefelau, o ddulliau dilysu manylion adnabod ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr;
- c) a ydych chi’n credu bod unrhyw amgylchiadau eraill lle dylid cynnig trefniadau dilysu manylion adnabod ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy’n darparu rhai mathau o opsiynau dilysu manylion adnabod ar gyfer defnyddwyr unigol sy’n oedolion

**Cwestiwn 32:** Mewn perthynas â’r dull(iau) dilysu manylion adnabod a ddefnyddir ar eich gwasanaeth, rhannwch unrhyw wybodaeth sy’n egluro:

- a) o dan ba amgylchiadau y cynigir dilysu manylion adnabod ar eich gwasanaeth a pham, ac i ba gategori/categoriâu o ddefnyddwyr;
- b) pa dystiolaeth a chamau a gymerir i ddilysu manylion adnabod defnyddiwr, e.e. pa briodoleddau sy’n cael eu gwirio, pa agweddau ar ddefnyddwyr wedi’u dilysu sy’n hysbys i’r darparwr yn unig, a pha agweddau sydd ar gael i ddefnyddwyr eraill eu gweld, gan gynnwys a yw prosesau sy’n ymwneud â defnyddwyr sy’n oedolion yn wahanol i’r rhai sy’n ymwneud â phlant;
- c) a yw’r broses wedi’i theilwra, neu a ellir ei theilwra, i ddefnyddwyr mewn ardaloedd daearyddol gwahanol, fel y DU;
- d) a ydych yn ymgysylltu â darparwyr trydydd parti i ddarparu’r cyfan neu ran o’r broses dilysu manylion adnabod hon ac, os felly, pa ddarparwyr;
- e) unwaith y byddir wedi dilysu manylion adnabod defnyddiwr, beth mae hyn yn caniatáu iddo ei wneud ar eich gwasanaeth, ac os yw’n berthnasol, pa weithgareddau mae’n galluogi iddo ei wneud ar wasanaeth arall;

---

<sup>76</sup> Yn unol â’r OSA, mae gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr yn golygu gwasanaeth rhyngwryd lle bydd cynnwys sy’n cael ei gynhyrchu’n uniongyrchol ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu’n cael ei lwytho i fyny neu ei rannu ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, yn gallu cael ei weld gan ddefnyddiwr arall, neu ddefnyddwyr eraill, y gwasanaeth” (adran 3(1) y Ddeddf).

- f) sut y datblygwyd eich polisiau dilysu manylion adnabod, gan gynnwys unrhyw ymchwil y gallwch ei rhannu;
- g) unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod dulliau dilysu manylion adnabod ar gael i bob oedolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys defnyddwyr nad ydynt efallai'n gallu cael mynediad at fathau penodol o ddulliau dilysu;
- h) unrhyw ystyriaeth i ddefnyddwyr a allai fod yn agored i niwed sy'n cymryd rhan yn y broses dilysu manylion adnabod;
- i) sut rydych chi'n rheoli'r broses o ddilysu pwy yw defnyddwyr sydd â mwy nag un cyfrif;
- j) sut rydych chi'n rheoli gwahanol ddulliau dilysu manylion adnabod sy'n cael eu rhedeg ar yr un pryd ar eich gwasanaeth, fel dulliau dilysu oedran sy'n gofyn am ID i gwblhau'r broses, cynlluniau am ffi a chynlluniau defnyddwyr nodedig<sup>77</sup>, a sut rydych chi'n ystyried canfyddiadau defnyddwyr o'r dulliau gwahanol hyn;

## Cost ac effeithiolrwydd y dulliau hyn

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 33:** Rhannwch unrhyw wybodaeth am gostau ac effeithiolrwydd dulliau dilysu manylion adnabod, gan gynnwys:

- a) unrhyw fewnwelediad i gost y dulliau dilysu manylion adnabod, gan gynnwys costau sefydlu a chostau parhaus, o ran amser gweithwyr ac unrhyw gostau perthnasol eraill, yn ogystal ag unrhyw effeithiau bwriadol ac anfwriadol ar wasanaethau yn fwy eang;
- b) pa mor effeithiol yw'r dulliau hyn o ran dilysu pwy yw'r defnyddiwr at y diben penodol yr ymgymeryd â'r broses dilysu;
- c) unrhyw fanteision eraill neu ganlyniadau anfwriadol yn sgil bodolaeth y cynlluniau hyn; a'r
- d) mesurau diogelu sy'n hanfodol i sicrhau bod preifatrwydd defnyddwyr yn cael ei ddiogelu.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n darparu rhai mathau o opsiynau dilysu manylion adnabod ar gyfer defnyddwyr unigol sy'n oedolion

- a) unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil dilysu manylion adnabod, fel yr effaith y gallai hyn ei chael ar ecosystem eich safle;

---

<sup>77</sup> Fe wnaethom ddiffinio 'Cynllun am Ffi' yn ein hymgyngoriad ar gynnwys anghyfreithlon fel "Cynllun lle mae gwasanaeth yn labelu proffil defnyddiwr sydd wedi talu i ddarparwr y gwasanaeth neu i rywun arall. Gall cynlluniau o'r fath fod yn agored i bob defnyddiwr a gall fod ar ffurf un taliad neu daliad rheolaidd. Gall defnyddwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun elwa ar fynediad at nodweddion ychwanegol ar y gwasanaeth. Gall y label i ddangos bod defnyddiwr yn cymryd rhan mewn cynllun am ffi ymddangos ar broffil y defnyddiwr hwnnw a/neu unrhyw gynnwys mae'n ei gyhoeddi. Gall gwasanaethau gyfeirio, neu beidio, at gynlluniau o'r fath fel "cynlluniau dilysu," ac at 'Gynllun defnyddwyr nodedig' fel "cynllun lle mae'r gwasanaeth yn labelu proffil y defnyddiwr i ddangos i ddefnyddwyr eraill ei fod yn nodedig. Mae "defnyddwyr nodedig" yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wleidyddion, enwogion, dylanwadwyr, cyngorwyr ariannol, gweithredwyr cwmnïau, newyddiadurwyr, adrannau a sefydliadau'r llywodraeth, sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau ariannol, cyfryngau, a chwmnïau. Gall y label i ddangos bod defnyddiwr yn nodedig (er enghraifft symbol "tic") ymddangos ar broffil y defnyddiwr hwnnw a/neu ar unrhyw gynnwys y mae'n ei gyhoeddi. Gall gwasanaethau gyfeirio, neu beidio, at gynlluniau o'r fath fel "cynlluniau dilysu". Gan Ofcom, 2023. [Atodiad 7 Cynnwys Anghyfreithlon - Codau ymarfer ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr](#), tudalennau 47 a 49.

- b) sut rydych yn rhagweld y bydd eich gwasanaeth yn gweithredu yn y farchnad hunaniaeth ddigidol, gan gofio'r camau tuag at gynlluniau hunaniaeth ar draws y diwydiant a ffederal.

## Agweddau defnyddwyr a'r galw am ddilysu manylion adnabod ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 34:** Beth yw agweddau'r defnyddwyr a'r galw am ddilysu manylion adnabod ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr? Gan gynnwys:

- a) a ydynt yn gwerthfawrogi cael cynnig dewisiadau dilysu ar wasanaeth;
- b) a yw dilysu yn dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr, megis a ydynt yn ystyried bod gwneud hynny'n arwydd o ddilysrwydd;
- c) agweddau tuag at ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu, rhai dienw neu ffugenwol a'r parodrwydd i ymgysylltu â nhw;
- d) pwy rydych chi'n ystyried sy'n 'agored i niwed' o ran dilysu pwy ydynt ar-lein – er enghraifft, a yw hyn yn cynnwys defnyddwyr sy'n methu â chael gafael ar ddogfennau adnabod neu sy'n llai tebygol o feddu ar ddogfennau o'r fath, a'r rheini a allai ddod yn agored i niwed drwy ddangos pwy ydynt i ddefnyddwyr eraill.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n darparu rhai mathau o opsiynau dilysu manylion adnabod ar gyfer defnyddwyr unigol sy'n oedolion

**Cwestiwn 35:** Sut ydych chi'n mesur ymgysylltiad â'ch dulliau dilysu manylion adnabod? Gan gynnwys:

- a) nifer eich defnyddwyr sy'n defnyddio'r dulliau dilysu manylion adnabod;
- b) unrhyw fewnwelediad i ddangos a yw'r dulliau dilysu manylion adnabod yn cael unrhyw effaith arall ar ymddygiad defnyddwyr, megis y cynnwys y mae defnyddwyr yn ei bostio a faint maen nhw'n ymgysylltu â'ch gwasanaeth.

# 7. Hysbysebu twyllodrus

Mae'r ddyletswydd **Hysbysebu Twyllodrus** yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau categori 1 a 2A yn rhedeg eu gwasanaethau gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur, sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â hysbysebu twyllodrus. Bydd Ofcom yn datblygu ac yn cyhoeddi cod ymarfer, gan ddisgrifio'r mesurau a argymhellir at ddibenion cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

## Dyletswyddau yn y Ddeddf

- 7.1 Mae'r Ddeddf yn rhoi trefn arbennig ar waith i sicrhau bod gwasanaethau categori 1 a 2A yn mynd i'r afael â hysbysebu twyllodrus y telir amdano. Mae 'hysbyseb dwyllodrus'<sup>78</sup> yn hysbyseb y telir amdani<sup>79</sup> sy'n cyfateb i un neu fwy o'r troseddau twyll y manylir arnynt yn y Ddeddf.<sup>80</sup> Mae cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr wedi'i eithrio o ddiffiniad hysbyseb dwyllodrus mewn perthynas â gwasanaethau categori 1<sup>81</sup>, ac mae hysbysebion y telir amdanynt wedi'u heithrio o ddiffiniad 'cynnwys chwilio'.<sup>82</sup>
- 7.2 Fel rhan o'u dyletswyddau mewn perthynas â hysbysebu twyllodrus, bydd yn rhaid i ddarparwyr<sup>83</sup> gwasanaethau categori 1 a 2A **reddeg y gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u cynllunio i wneud y canlynol:**
- atal unigolion rhag dod ar draws cynnwys sydd â hysbysebion twyllodrus drwy gyfrwng eu gwasanaeth;**
  - lleihau'r amser y mae unrhyw gynnwys o'r fath yn bresennol;**
  - pan fo rhywun yn rhoi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth am bresenoldeb cynnwys o'r fath neu pan fydd yn dod yn ymwybodol ohono mewn unrhyw ffordd arall, **mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 dynnu cynnwys o'r fath i lawr yn gyflym, tra bo'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 2A sicrhau'n gyflym nad yw unigolion bellach yn gallu dod ar draws cynnwys o'r fath yn neu drwy ganlyniadau chwilio'r gwasanaeth.**
- 7.3 Rhaid i wasanaethau o'r fath hefyd **gynnwys darpariaethau clir a hygyrch yn eu telerau gwasanaeth** sy'n rhoi gwybodaeth am unrhyw dechnoleg ragweithiol a ddefnyddir gan ddarparwr y gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.
- 7.4 Wrth benderfynu ar yr hyn sy'n gymesur, mae'n rhaid i wasanaethau **roi sylw penodol i'r canlynol: (a) natur a difrifoldeb y niwed posibl** i unigolion yn sgil gwahanol fathau o

<sup>78</sup> Ni ddylid drysu rhwng y diffiniad hwn a'r gynrychiolaeth dwyllodrus o argraffiadau hysbysebu ar-lein i gynhyrchu referniw – y cyfeirir ato'n aml fel 'twyll hysbysebu'.

<sup>79</sup> Nodir diffiniad 'hysbysebion y telir amdanynt' o dan adran 236 y Ddeddf.

<sup>80</sup> Mae'r troseddau sy'n perthyn i'r dyletswyddau hysbysebu twyllodrus wedi'u nodi yn adran 40 y Ddeddf.

Mae cynnwys chwilio a chynnwys defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cyfateb i drosedd twyll perthnasol yn dod o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelwch cyffredinol yn y Ddeddf; rydym wedi [ymgyngori ar Godau Ymarfer arfaethedig](#).

<sup>81</sup> Adran 38(3)(c) o'r Ddeddf.

<sup>82</sup> Adran 57(2)(a)

<sup>83</sup> Mae'r dyletswyddau wedi'u nodi ar gyfer gwasanaethau categori 1 a 2A yn adrannau 38 a 39 o'r Ddeddf, yn y drefn honno.



hysbysebion twyllodrus, a (b) faint o reolaeth sydd gan y darparwr dros osod yr hysbysebion ar y gwasanaeth.<sup>84</sup>

## Gweithredu'r Ddeddf

---

7.5 Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu cod ymarfer hysbysebu twyllodrus, gan ddisgrifio'r mesurau a argymhellir at ddibenion cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.<sup>85</sup>

## Cwestiynau i randdeiliaid

---

7.6 Yn yr adran hon, mae gennym ddi-ddordeb mewn deall mwy am y canlynol:

- a) y prosesau a'r mecanweithiau (gan gynnwys eu heffeithiolrwydd, y costau, a'r risg o effeithiau anfwriadol) y mae gwasanaethau o fewn y cwmpas yn eu defnyddio ar hyn o bryd i gefnogi'r broses o ddarparu hysbysebion a chanfod deunydd hysbysebu twyllodrus;
- b) prosesau a mecanweithiau ychwanegol y gellid eu rhoi ar waith er mwyn i wasanaethau perthnasol gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â hysbysebu twyllodrus; ac
- c) unrhyw dystiolaeth berthnasol ynghylch rôl cyfryngwyr trydydd parti sy'n rhan o'r broses o gyflwyno hysbysebion ar wasanaethau o fewn y cwmpas a'u perthynas â'r gwasanaethau hynny.

7.7 Sylwch, pan fydd cwestiynau'n gofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â niferoedd neu feintiau penodol, mae gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol i ni at ddibenion asesu cymesuredd mesurau cod posibl.

7.8 **Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau isod. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol ym marn rhanddeiliaid.**

## Ystyriaethau cyffredinol

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 36:** Rhowch dystiolaeth o'r canlynol:

- a) Y mathau mwyaf cyffredin o weithgarwch hysbysebu twyllodrus ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (e.e. hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon, datganiadau camarweiniol, malsbysebu<sup>86</sup>);
- b) Y niwed sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o hysbysebion twyllodrus, difrifoldeb niwed o'r fath, ac, os yw'n berthnasol, sut mae hyn yn amrywio yn ôl grŵp defnyddiwr;
- c) Y prif heriau i ganfod gwahanol fathau o hysbysebion twyllodrus y telir amdanynt, a sut y gellir lleihau neu ddatrys yr heriau hyn;
- d) Blaenoriaethu hysbysebion yr amheuir eu bod yn dwyllodrus ym mhob categori ciwiau hysbysebu niweidiol, e.e. dilysu cyfrifon, adroddiadau defnyddwyr, apeliadau; a

---

<sup>84</sup> Adrannau 38(5) a 39(5) y Ddeddf

<sup>85</sup> Adran 41(4) y Ddeddf.

<sup>86</sup> Term yw 'malsbysebu' sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio technegau ymosodiadau seiber sy'n cynnwys lledaenu maleiswedd drwy rwydweithiau hysbysebu ar-lein.

- e) Cyfran yr hysbysebion twyllodrus yr amcangyfrifir ar hyn o bryd nad ydynt yn cael eu canfod gan systemau'r gwasanaethau.

**Cwestiwn 37:** Pa ddatblygiadau technolegol sy'n helpu i atal/canfod hysbysebion twyllodrus ydych chi'n eu rhagweld dros y blynyddoedd nesaf, a pha mor ddrud ac effeithiol ydych chi'n disgwyl iddynt fod? Beth yw'r heriau/rhwysterau i'w datblygu?

**Cwestiwn 38:** Os oes gennych chi wybodaeth/tystiolaeth/mesurau lliniaru i'w rhannu a allai fod yn ddefnyddiol wrth baratoi codau ymarfer, ac nad yw'r cwestiynau uchod yn ymdrin â nhw, dylech gynnwys y rhain o dan 'Ystyriaethau cyffredinol'.

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 39:** Pa gyfran o'r holl hysbysebion y telir amdanynt ar eich gwasanaeth sy'n cael ei nodi fel hysbysebion twyllodrus?

**Cwestiwn 40:** A yw eich gwasanaeth yn cymryd unrhyw gamau i rybuddio defnyddwyr am y risg o ddod ar draws hysbysebion twyllodrus neu i'w haddysgu ynghylch sut i adnabod hysbysebion a allai fod yn dwyllodrus?

**Cwestiwn 41:** Rhowch wybodaeth am gyfran yr hysbysebion twyllodrus a nodwyd yn llwyddiannus sy'n cael eu canfod drwy a) systemau awtomatig, b) prosesau dynol, c) adroddiadau defnyddwyr d) arall (rhowch ragor o fanylion).

**Cwestiwn 42:** Beth yw'r amser cyfartalog a/neu ganolrif a gymerir rhwng adnabod hysbyseb dwyllodrus a'i dileu/cymryd camau eraill? (Os cymerir camau eraill, nodwch beth ydynt).

## Technoleg ragweithiol

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 43:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych o dechnolegau rhagweithiol<sup>87</sup> y gellid eu defnyddio i bennu gweithgarwch hysbysebu twyllodrus.

Yn benodol, mae gennym ddi-ddordeb mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r pwyntiau canlynol:

- Y mathau o dechnoleg ragweithiol sy'n cael eu defnyddio, neu y gellir eu defnyddio, i ganfod neu atal hysbysebion twyllodrus;
- Disgrifiad byr o sut mae'r technolegau hyn yn cael eu hintegreiddio i'r gwasanaeth, neu sut y gellid gwneud hynny;
- Effeithiolrwydd, cywirdeb a didueddrwydd technoleg o'r fath (gan gynnwys o'i chymharu â dulliau rhagweithiol eraill a dulliau nad ydynt yn rhagweithiol) mewn perthynas â chanfod hysbysebion a chyfrifon twyllodrus sy'n postio deunydd hysbysebu twyllodrus;
- Sut mae technolegau rhagweithiol yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfredol;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â'r amser a/neu'r costau cysylltiedig ar gyfer sefydlu, gweithredu, ac adolygiad dynol;
- Cost integreiddio technolegau o'r fath: (a) am y tro cyntaf; a (b) wrth ddiweddarau'r technolegau hyn dros amser;
- A oes arbedion o ran costau'n gysylltiedig â'r technolegau hyn.

## Hysbysebu, cynefino a dilysu

---

<sup>87</sup> Mae 'technoleg ragweithiol' yn cynnwys tri math o dechnoleg: technoleg adnabod cynnwys, technoleg proffilio defnyddwyr, a thechnoleg adnabod ymddygiad (yn amodol ar eithriadau penodol). Diffinnir yn adran 231 o'r Ddeddf.

## Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 44:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych ynghylch y prosesau ar gyfer cynefino a dilysu hysbysebwr mewn perthynas â diogelu rhag hysbysebion twyllodrus. Yn eich ymateb, nodwch a yw'r prosesau hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf neu a ydynt yn deillio o sector arall.

Yn benodol, mae gennym ddi-ddordeb mewn gwybodaeth berthnasol am y pwyntiau canlynol:

- Y meini prawf y mae hysbysebwr yn cael eu dilysu yn eu herbyn, gan gynnwys y dogfennau/tystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi'r dulliau dilysu, a'r hyn y mae'n rhaid i hysbysebwr ei ddatgelu;
- Rôl (a) prosesu awtomatig a (b) prosesu dynol yn y broses ddilysu, a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd;
- Y costau sy'n gysylltiedig â dilysu hysbysebwr a sut mae'r costau hynny'n amrywio wrth i'r raddfa gynyddu;
- Canran y cyfrifon hysbysebwr sy'n cael eu dilysu;
- A ganiateir i hysbysebwr gyhoeddi hysbysebion ar y gwasanaeth tra bo'r broses ddilysu'n mynd rhagddi;
- A oes trefniadau dilysu ychwanegol/penodol ar gyfer hysbysebwr sy'n gosod mathau penodol o hysbysebion neu sy'n targedu cynulleidfaoedd penodol, megis am gynnyrch neu wasanaethau penodol, neu sy'n targedu defnyddwyr o dan 18 oed;
- A yw dilysiad cyfrif hysbysebwr yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol o amser neu weithgarwch penodol, fel pan fydd hysbysebwr yn gwneud newidiadau i'w cyfrif neu broffil.

## Adolygiad y gwasanaeth o'r hysbysebion a gyflwynir/canlyniadau chwilio wedi'u noddi

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 45:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych ynghlŷn â'r prosesau sydd gan wasanaethau o fewn cwmpas y Ddeddf i adolygu hysbysebion y telir amdanynt ac i adnabod deunydd hysbysebu twyllodrus.

Yn benodol, mae gennym ddi-ddordeb mewn gwybodaeth berthnasol am y pwyntiau canlynol:

- Canran yr hysbysebion a gyflwynir sy'n cael eu hadolygu (a) cyn a (b) ar ôl eu cyhoeddi;
- Y rôl mae (a) prosesu awtomatig a (b) prosesu dynol yn ei chwarae yn y broses adolygu a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd;
- Y fflagiau coch sy'n ysgogi prosesau adolygu hysbysebion (a) cyn a (b) ar ôl cyhoeddi a'r sail a ddefnyddir i ddewis y fflagiau coch hynny;
- Yr amserlenni ar gyfer adolygu;
- Beth sy'n digwydd i welededd a chyrhaeddiad yr hysbyseb os nodir yr amheuir ei bod yn dwyllodrus (naill ai gan ddefnyddiwr neu system awtomatig);
- Y costau sy'n gysylltiedig ag adolygu'r hysbysebion y telir amdanynt;
- A ddefnyddir adroddiadau fflagwyr dibynadwy i lywio prosesau adolygu gwasanaethau. Os felly, sut y'u defnyddir, pa ganllawiau / meini prawf a ddilynir, a phwy yw'r fflagwyr dibynadwy hynny?

## Apeliadau hysbysebwr yn erbyn penderfyniadau dilysu/adolygu

## Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 46:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych ynghylch apeliadau hysbysebwr yn erbyn penderfyniadau dilysu/adolygu sy'n ymwneud â hysbysebu twyllodrus ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf.

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb mewn gwybodaeth berthnasol am y pwyntiau canlynol:

- a) Rôl (a) prosesu awtomatig a (b) prosesu dynol yn y broses apelio, a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd;
- b) Lefel y prawf sydd ei angen er mwyn derbyn apêl;
- c) Y seiliau mwyaf cyffredin ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau ar sancsiynau yng nghyswllt cynnwys hysbysebu twyllodrus;
- d) Cymhareb y penderfyniadau yr apelir yn eu herbyn;
- e) Y costau sy'n gysylltiedig ag apeliadau;
- f) Cyfran y penderfyniadau yr apelir yn eu herbyn sy'n cael eu cadarnhau a'u gwrthdroi.

## Mecanweithiau adrodd defnyddwyr

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 47:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych ynghylch mecanweithiau adrodd defnyddwyr ar gyfer hysbysebu twyllodrus ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf.

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb mewn gwybodaeth berthnasol am y pwyntiau canlynol:

- a) Pa offer adrodd defnyddwyr sydd ar gael mewn perthynas â hysbysebion y telir amdanynt, a sut mae'r rhain yn wahanol i'r rhai ar gyfer cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr a/neu ganlyniadau chwilio a swyddogaethau chwilio eraill nad ydynt yn hysbysebion y telir amdanynt;
- b) Pa ganran o adroddiadau defnyddwyr am hysbysebion sy'n ymwneud ag amheuaeth o gynnwys twyllodrus, a'r prosesau ar gyfer cymryd camau mewn perthynas ag adroddiadau o'r fath;
- c) Unrhyw ystadegau y gallwch eu rhannu am (a) nifer yr adroddiadau gan ddefnyddwyr ynghylch amheuaeth o hysbysebion twyllodrus sy'n dod i law ac sy'n cael eu datrys dros gyfnod penodol a (b) nifer y penderfyniadau cychwynnol yr apelir yn eu herbyn gan y defnyddwyr a wnaeth yr adroddiad;
- d) Y meini prawf a ddefnyddir i ddisbarthu a blaenoriaethu adroddiadau defnyddwyr;
- e) Yr amser canolrif a/neu gyfartalog y mae'n ei gymryd i ymateb i adroddiad defnyddiwr, ac unrhyw fesurau sydd ar waith i sicrhau ymatebion amserol a chywir i adroddiadau defnyddwyr;
- f) Unrhyw fesurau a gymerir i wneud offer adrodd yn hygyrch, yn hawdd eu defnyddio ac yn hawdd eu canfod i ddefnyddwyr;
- g) Sut y cynhelir tryloywder a chyfathrebu gyda defnyddwyr sydd wedi cyflwyno adroddiadau.

## Defnyddio/cynnwys trydydd partïon

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 48:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol i hysbysebu twyllodrus sydd gennych, mewn perthynas ag ymglymiad a rôl trydydd partïon yn y ddarpariaeth o hysbysebion y telir amdanynt ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf.

Yn unol â'r meini prawf cymesuredd o dan adrannau 38(5) a 39(5) o'r Ddeddf, rydym yn croesawu gwybodaeth sy'n ymwneud â sut mae cynnwys trydydd partïon yn effeithio ar faint o reolaeth sydd gan wasanaethau dros gynnwys hysbysebu twyllodrus.

Rydym hefyd yn croesawu gwybodaeth am drefniadau cytundebol a sut mae'r trefniadau hynny'n cael eu gorfodi.

## Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a ffugiadau dwfn

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 49:** Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych ynghylch effaith datblygiadau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a ffugiadau dwfn ar amllder a'r gallu i ganfod hysbysebion twyllodrus ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf.

Yn benodol, mae gennym ddiddordeb mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r pwyntiau canlynol:

- a) Pa mor aml mae hysbysebion twyllodrus ffugiad dwfn yn digwydd, mewn termau absoliwt a/neu fel cyfran o'r holl hysbysebion twyllodrus, a sut rydych chi'n disgwyl i hyn ddatblygu yn y dyfodol;
- b) Pa fethodolegau/technolegau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ganfod hysbysebion twyllodrus gyda chynnwys ffugiad dwfn neu gynnwys arall a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial, ac effeithiolrwydd yr adnoddau hyn;
- c) P'un a yw technolegau canfod yn cael eu datblygu'n fewnol neu'n cael eu caffael gan drydydd parti, a pha mor hir mae'n ei gymryd i ddatblygu a/neu integreiddio'r adnoddau hynny mewn systemau ehangach;
- d) Cywirdeb y dulliau canfod, gan gynnwys cyfraddau positif cywir a phositif anghywir;
- e) Y costau sy'n gysylltiedig â datblygu/caffael a defnyddio'r mecanweithiau canfod hyn;
- f) Y mathau o gynnwys ffugiad dwfn neu gynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial (o ran y math o gyfrwng neu bwnc) mewn hysbysebion twyllodrus sydd fwyaf anodd eu canfod a) drwy brosesau awtomatig, b) gan gymedrolwyr dynol, c) gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

## 8. Mynediad at wybodaeth am ddefnydd o wasanaeth gan blentyn sydd wedi marw

Mae'r darpariaethau ar gyfer **plant sydd wedi marw oedd yn ddefnyddwyr** yn mynnu bod darparwyr pob gwasanaeth wedi'i gategoreiddio yn egluro beth yw eu polisi ynghylch datgelu gwybodaeth i rieni plentyn sydd wedi marw am ddefnydd y plentyn o'r gwasanaeth. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gael mecanwaith i rieni ganfod yn rhwydd beth y mae angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau yn yr amgylchiadau hynny. Mae'n rhaid i Ofcom gynhyrchu canllawiau i helpu darparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

### Dyletswyddau yn y Ddeddf

- 8.1 Mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth wedi'i gategoreiddio **nodi ei bolisi ar ddelio â cheisiadau gan rieni plentyn sydd wedi marw am wybodaeth ynghylch defnydd y plentyn o'r gwasanaeth yn y telerau gwasanaeth (neu mewn datganiad sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer gwasanaethau categori 2A), a darparu mecanweithiau i rieni ganfod beth y mae angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau yn yr amgylchiadau hynny.**<sup>88</sup> Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid oes unrhyw ddyletswyddau yn y Ddeddf i ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio gael polisi ar gyfer rhannu gwybodaeth â rhieni.
- 8.2 Mae plentyn, yn y cyd-destun hwn, yn golygu unrhyw un o dan 18 oed.<sup>89</sup> Gallai rhiant yn y cyd-destun hwn fod yn unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant.<sup>90</sup>
- 8.3 Pan fydd gan ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio bolisi ar gyfer datgelu ar eu gwasanaeth, rhaid iddynt wneud y canlynol:
- **meddu ar fecanwaith (llinell gymorth arbennig neu ran o'r gwasanaeth) i rieni ganfod yn rhwydd beth y mae angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau am y cais yn yr amgylchiadau hynny;**
  - **cynnwys darpariaethau clir a hygyrch yn y telerau gwasanaeth:**
    - a) sy'n nodi'r drefn i rieni plentyn sydd wedi marw ofyn am wybodaeth am ddefnydd y plentyn o'r gwasanaeth;
    - b) nodi pa dystiolaeth (os o gwbl) y bydd angen ei rhoi i'r darparwr ynghylch hunaniaeth neu berthynas y rhiant â'r plentyn; a
    - c) rhoi digon o fanylion i alluogi'r plant sy'n ddefnyddwyr a'u rhieni fod yn eithaf sicr ynghylch pa fath o wybodaeth fyddai'n cael ei ddatgelu a sut y byddai hynny'n cael ei wneud.

<sup>88</sup> Adran 75 y Ddeddf.

<sup>89</sup> Adran 236 y Ddeddf.

<sup>90</sup> Adran 75(10) y Ddeddf.

- **ymateb yn brydlon i geisiadau gan rieni plentyn sydd wedi marw** am wybodaeth am ddefnydd y plentyn o'r gwasanaeth neu am ddiweddariadau ynghylch cynnydd ceisiadau o'r fath;
- **gweithredu trefn gwyno sy'n:**
  - a) caniatáu i rieni gwyno os ydynt yn credu nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol;<sup>91</sup>
  - b) darparu ar gyfer cymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion o'r fath; ac
  - c) sy'n hygyrch, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn dryloyw.

8.4 Ar wahân, bydd gan Ofcom bŵer disgrisiwn i fynnu bod gwasanaethau yn darparu gwybodaeth am ddefnydd plentyn o wasanaeth pan wneir cais mewn cysylltiad ag ymchwiliad i farwolaeth plentyn.<sup>92</sup> Byddwn yn nodi ein polisi ar gyfer defnyddio ein pwerau adran 101 maes o law.

## Gweithredu'r Ddeddf

---

8.5 Bydd yn rhaid i Ofcom gynhyrchu canllawiau i helpu gwasanaethau wedi'u categorio i gydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas â phlant sydd wedi marw oedd yn ddefnyddwyr.<sup>93</sup>

## Cwestiynau i randdeiliaid

---

- 8.6 Yn y cais hwn am dystiolaeth, mae gennym ddiddordeb mewn deall mwy am y canlynol:
- a) pa fathau o dystiolaeth y gallai fod eu hangen ar wasanaethau am hunaniaeth neu berthynas y rhiant â'r plentyn, ac am farwolaeth y plentyn;
  - b) pa fathau o wybodaeth y gallai rhieni ofyn amdani am ddefnydd eu plentyn o'r gwasanaeth, pa wybodaeth y mae gwasanaethau'n ei darparu neu y gallent ei darparu a sut, a'r heriau neu'r cyfaddawdu sy'n gysylltiedig â gwneud hynny;
  - c) pa mor hir y dylai gymryd yn rhesymol i wasanaethau ddarparu'r math hwnnw o wybodaeth; a
  - d) pa fecanweithiau sydd ar gael ar hyn o bryd i rieni gael gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau yn yr amgylchiadau hyn, a yw'r rhain yn hawdd eu defnyddio, a pha fecanweithiau eraill allai fod ar gael.

**Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau isod. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol ym marn rhanddeiliaid.**

## Prosesau ar gyfer gwneud cais am wybodaeth am ddefnydd o wasanaeth gan blentyn sydd wedi marw

### Ar gyfer pob ymatebydd

Yn benodol, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan bobl sydd wedi gofyn am wybodaeth gan wasanaethau yn dilyn marwolaeth aelod o'r teulu, a sefydliadau sy'n cynrychioli teuluoedd mewn profedigaeth:

---

<sup>91</sup> Adrannau 75(1)-(4)

<sup>92</sup> Adran 101 y Ddeddf.

<sup>93</sup> Adran 76 y Ddeddf.

**Cwestiwn 50:** Pa fathau o wybodaeth y gallai rhieni fod eisiau ei gweld am ddefnydd eu plentyn o'r gwasanaeth?

**Cwestiwn 51:** Faint o amser ddylai ei gymryd i gael gwybodaeth mewn ymateb i gais?

**Cwestiwn 52:** Pa fecanweithiau allai, neu y dylai, gwasanaethau eu darparu i rieni ganfod beth y mae angen iddynt ei wneud i gael gwybodaeth a diweddariadau yn yr amgylchiadau hynny?

**Cwestiwn 53:** Pa gymorth neu wybodaeth sydd ei angen ar rieni i'w harwain drwy'r broses o wneud cais?

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sydd â pholisi am ddarparu gwybodaeth am ddefnyddwyr sydd wedi marw:

**Cwestiwn 54:** Pa fathau o wybodaeth ydych chi'n ei darparu a sut ydych chi'n darparu'r wybodaeth hon?

- a) Os oes mathau penodol o wybodaeth na allwch ei darparu, esboniwch pam, er enghraifft a oes ffactorau technolegol, cost neu breifatrwydd sy'n golygu efallai na fyddai'n ymarferol darparu rhai mathau o wybodaeth.

**Cwestiwn 55:** Faint o amser mae'n ei gymryd fel arfer i chi ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i gais?

- a) Faint o amser ddylai ei gymryd yn rhesymol i wasanaethau ddarparu gwybodaeth yn yr amgylchiadau hyn?

## Systemau cwyno

Ar gyfer y cwestiynau canlynol, os ydych chi wedi darparu gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i gwynion a chwestiynau adrodd yn Adran 3, dyletswyddau telerau gwasanaeth ychwanegol, gallwch groesgyfeirio at yr ymatebion hyn yma.

### Ar gyfer pob ymatebydd

**Cwestiwn 56:** Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i sicrhau tryloywder, hygyrchedd, hwylustod ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o'u mecanweithiau cwyno mewn perthynas â phrosesau cais am wybodaeth defnyddiwr sydd wedi marw?

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 57:** Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth am yr arferion gorau ar gyfer mecanweithiau cwyno effeithiol a allai llywio dull ar gyfer cwyno am brosesau cais am wybodaeth yn ymwneud â defnyddiwr sydd wedi marw?

## Tystiolaeth

### Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

**Cwestiwn 58:** Pa fathau o dystiolaeth ydych chi ei hangen am hunaniaeth y sawl sy'n gwneud y cais a'i berthynas â'r defnyddiwr sydd wedi marw?

- a) Ydych chi angen, neu a fydech chi angen, gwahanol fathau o dystiolaeth os mai plentyn yw'r defnyddiwr sydd wedi marw?
- b) Pa dystiolaeth sydd ei hangen arnoch, neu a fyddai ei hangen arnoch, i ddangos bod defnyddiwr wedi marw?



# A1. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

## Sut mae ymateb

---

- A1.1 Hoffai Ofcom gael ymatebion erbyn 5pm ar 20 Mai 2024.
- A1.2 Gallwch [lwytho ffurflen ymateb i lawr o'n gwefan](#). Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i [os-cfe@ofcom.org.uk](mailto:os-cfe@ofcom.org.uk), fel atodiad mewn **fformat Microsoft Word**, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 20 Mai 2024.
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan farcio teitl yr ymgynghoriad arnynt:
- Tîm Cyflawni Polisi Diogelwch Ar-lein  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
Llundain SE1 9HA
- A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- > anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
  - > gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A1.8 **Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn y cais am dystiolaeth os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn.** Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.9 **Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y cais hwn am dystiolaeth. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro pam rydych yn coleddu'ch barn a darparu tystiolaeth ategol.**
- A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn y ddogfen hon, cysylltwch â'r tîm Diogelwch Ar-lein drwy anfon neges e-bost i [os-cfe@ofcom.org.uk](mailto:os-cfe@ofcom.org.uk).

## Cyfrinachedd

---

- A1.11 Mae ceisiadau am dystiolaeth yn fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i gyfnod y cais am dystiolaeth ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer y cais am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A1.12 **Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân.** Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.
- A1.13 **Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddfiri ac yn ceisio ei barchu, naill ai drwy beidio â chyhoeddi'r ymateb o gwbl, neu drwy gyhoeddi'r darnau nad ydynt yn gyfrinachol yn unig. Weithiau, efallai y byddwn yn credu ei bod yn bwysig datgelu rhannau o ymateb sydd wedi'i farcio'n gyfrinachol, a hynny am resymau tryloywder, ond byddwn yn ymgynghori â chi cyn gwneud hynny.** O bryd i'w gilydd efallai y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i gyhoeddi gwybodaeth neu ei datgelu yn y llys, ond unwaith eto, cyn belled ag y bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi.
- A1.14 Hyd yn oed os nad yw eich ymateb wedi'i farcio'n gyfrinachol, efallai y byddwn yn dal i benderfynu peidio â chyhoeddi'r ymateb cyfan neu ran ohono mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, os oes gennym bryderon am yr effaith ar eich preifatrwydd neu breifatrwydd pobl eraill, y gallai cynnwys yr ymateb hwyluso cyflawni trosedd, neu am natur sensitif y cynnwys yn fwy cyffredinol. Os byddwn yn penderfynu peidio â chyhoeddi eich ymateb cyfan neu ran ohono, byddwn yn dal i'w ystyried wrth edrych ar y mater.
- A1.15 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb nad yw'n gyfrinachol ag adran berthnasol y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A1.16 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio. Edrychwch hefyd ar ein [Datganiad Preifatrwydd](#).

## Y camau nesaf

---

- A1.17 Pe dymunwch, gallwch [gofrestru i gael diweddariadau](#) i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau Ofcom

---

- A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i gais am dystiolaeth.

- A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein ceisiadau am dystiolaeth neu ymgynghoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr unigol gwasanaethau ar-lein, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gorfforaeth:

Corporation Secretary  
Ofcom  
Riverside House  
2a Southwark Bridge Road  
Llundain SE1 9HA  
E-bost: [corporationsecretary@ofcom.org.uk](mailto:corporationsecretary@ofcom.org.uk)

# A2. Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth

## Manylion sylfaenol

---

Teitl y cais am dystiolaeth:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

---

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

- > Dim
- > Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- > Ymateb cyfan
- > Sefydliad
- > Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----  
-----

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw       Nac ydw

## Datganiad

---

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r cais am dystiolaeth y gall Ofcom ei chyhoeddi yn ddarostyngedig i'r adran am gyfrinachedd uchod. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall efallai y bydd angen i Ofcom ddatgelu peth o'r wybodaeth sydd wedi'i marcio'n gyfrinachol pan fydd yn gymesur ac yn deg gwneud hynny er mwyn galluogi ymgynghori'n briodol, neu os bydd Ofcom yn cael gorchymyn i'w datgelu. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Nod Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod a bennwyd ar gyfer y cais am dystiolaeth ac ar ôl iddo ddod i ben. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n

rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw      Llofnod (os darperir copi caled)